niace
promoting adult learning



# Mae Dysgu fel Teulu yn Gweithio

## Yr Ymchwiliad i Ddysgu fel Teulu yn Lloegr a Chymru

**Diolchiadau**

Aelodau'r Comisiwn

Y Farwnes Howarth o Breckland, OBE (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Bryn Davies (Is-gadeirydd) | Cyn Bennaeth Coleg Ystrad Mynach |
| Nick Stuart | Llywydd, Bwrdd Cwmni NIACE |
| Bob Fryer | Cadeirydd Campaign for Learning |
| Ann Walker | Cyfarwyddwr Addysg, WEA |
| Karen Hanson | Rheolwr Dysgu fel Teulu, Cyngor Dinas Sheffield |
| JD Carpentieri | Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Addysg |
| Margaret Lochrie | Capacity Consultants Cyf |
| Martin Dunford | Prif Weithredwr, Skills Training UK |
| Mair Francis | Uwch Gymhorthydd Seneddol yn y Swyddfa Wleidyddol |

Diolch arbennig i Jan Nocitzky, NIACE

# CYNNWYS




**Rhagair** 5

**Cyflwyniad** 7

**Pennod 1** 12

Beth yw dysgu fel teulu

**Pennod 2** 17

Dysgu fel teulu yn Lloegr a Chymru

**Pennod 3** 20

Effaith dysgu fel teulu

**Pennod 4** 25

Negeseuon allweddol

**Appendices** 32

Atodiad 1 Rhaglenni Dysgu fel Teulu

Atodiad 2 Ffrydiau cyllid allweddol

Atodiad 3 Lleoliadau ar gyfer dysgu fel teulu

Atodiad 4 Beth yw nodweddion y rhaglenni dysgu fel teulu mwyaf effeithlon?

Atodiad 5: Adnoddau i gefnogi ansawdd

Atodiad 6: Ymarfer creadigol

Atodiad 7: Cyfranogiad mewn dysgu fel teulu yn Lloegr

# RHAGAIR



Bu'n bleser mawr i mi, er y bu'n rhaid i mi ddysgu llawer yn gyflym, i gadeirio'r Ymchwiliad i Ddysgu fel Teulu ar gyfer NIACE. Ar ôl blynyddoedd lawer o ymwneud gyda phlant a theuluoedd, llawer ohonynt yn dioddef o amddifadedd difrifol, ac ymrwymiad dwfn i rôl dysgu mewn ac ar gyfer teuluoedd, treuliais y 18 mis diwethaf yn clywed tystiolaeth am y gwahaniaeth gwirioneddol y gall ei wneud.

Rydym yn genedl mewn argyfwng yng nghyswllt sgiliau ac agweddau at ddysg ein dinasyddion. Dengys canlyniadau diweddar arolwg OECD o sgiliau oedolion fod gan gyrhaeddiad addysgol rhieni yn Lloegr a Gogledd Iwerddon effaith cryfach na'r cyfartalog ar hyfedredd oedolion mewn llythrennedd a rhifedd. Ymhellach, mae oedolion y mae gan eu rhieni lefelau isel o addysg wyth gwaith yn debycach i fod â hyfedredd gwael mewn llythrennedd nag oedolion y cafodd eu rhieni lefelau uwch o addysg.[i] Onid yw'n gywilyddus fod cenedl fel ni yn y sefyllfa yma? Mae'r comisiynwyr ar yr ymchwiliad yma'n awgrymu'n gryf iawn mai dim ond drwy fynd i'r afael â'r materion o fewn teuluoedd, gan weithio gyda hwy i ddatblygu agweddau cadarnhaol i ddysgu, y gallwn byth obeithio gwneud y newid sylweddol sydd ei angen.

Rwy'n hollol sicr fod gan ddysgu fel teulu fuddion lluosog. Mae dysgu fel teulu yn codi cyrhaeddiad plant ac mae gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae yma - mae pob ysgol wych yn rhoi rhan i'r rhieni. Dangosodd tystiolaeth y gallai dysgu fel teulu gynyddu lefel cyffredinol datblygiad plant gan gymaint â 15 pwynt canran ar gyfer rhai o grwpiau difreintiedig.

Fel ymyriad a anelwyd at rieni a gofalwyr yn gymaint ag at blant - mewn gwirionedd yr holl bwynt yw ei fod yn rhyng-genhedlaeth - credwn fod gennym dystiolaeth gadarn i ddangos fod dysgu fel teulu yn elfen effeithlon o unrhyw strategaeth addysg oedolion a sgiliau. Gwelsom drosom ein hunain sut y gellir dod ag oedolion difreintiedig yn ôl i ddysgu drwy eu teuluoedd, gan wella eu hyder i fynd ati i ddysgu a chyflogaeth drwy wella iechyd a lles a chynyddu'r cysylltiad gyda chymdeithas a'u cymuned.

Ymhellach, gwyddom fod dysgu fel teulu yn gostwng cost cefnogi teuluoedd agored i niwed. Mae'n ymwreiddio newidiadau mewn agweddau, ymddygiad, dealltwriaeth a sgiliau yn y teulu. Dengys tystiolaeth o'r Unol Daleithiau bod enilliad o $12[ii] am bob $1 a werir ar ddysgu fel teulu - mae'n anffodus nad oes tystiolaeth debyg yn y Deyrnas Unedig.

Ar gyfer y comisiynwyr ar yr ymchwiliad yma, mae dysgu fel teulu yn ymyriad sengl, a gyflwynir mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mewn amrywiaeth o osodiadau, sydd â chanlyniadau lluosog i oedolion a phlant, ar gyfer teuluoedd a chymunedau. Gallai, mewn un genhedlaeth, newid bywydau cenhedlaeth gyfan. Byddem yn ffol i golli cyfle o'r fath.

Hoffwn orffen drwy ddiolch yn fawr i'r comisiynwyr a wnaeth fy nghefnogi drwy hyn, i'r staff yn NIACE ac i'r cannoedd o ddysgwyr, ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi a roddodd eu hamser i ni.



Baroness Howarth of Breckland, OBE

i OECD (2013) Arolwg Sgiliau Oedolion, Canlyniadau Cyntaf, Lloegr a Gogledd Iwerddon

ii J. J. Heckman *et al.* (2010) 'The return to the Highscope Perry Preschool Program', *Journal of Public Economics*, Elsevier.

# CYFLWYNIAD



*Roeddwn mewn llanast llwyr ... doeddwn i ddim eisiau gadael y tŷ. Wyddwn i ddim sut i drin fy arian na dim. Roeddwn mewn trafferthion. Roeddwn yn hollol ddihyder ... Gwnaeth dysgu fel teulu fi i deimlo fel person eto. Rhoddodd obaith i mi ar gyfer y dyfodol. Roeddwn yn rhiant sengl. Sylweddolais fod gen i opsiynau ac nad oeddwn ar fy mhen fy hun ddim mwy. Roedd gennyf gefnogaeth. Mae fy mhlant yn fy ngweld yn dysgu nawr. Rydyn ni gyd yn eistedd lawr a gwneud ein gwaith cartref gyda'n gilydd ac maen nhw'n yn deall pa mor bwysig yw hi i wrando yn yr ysgol. Mae'n deimlad mor dda fel rhiant i gymryd rhan yn addysg eich plant.*

Zoe (learner)

## Beth yw dysgu fel teulu?

Mae 'dysgu fel teulu' yn cyfeirio at unrhyw weithgaredd dysgu sy'n cynnwys plant ac oedolion sy'n aelodau teulu, lle bwriedir deilliannau dysgu ar eu cyfer i gyd, ac sy'n cyfrannu at ddiwylliant o ddysgu yn y teulu.

Mae dysgu fel teulu yn bwysig. Mae'n bwysig oherwydd fod ymwneud y rhieni mewn dysgu fel teulu yn cael effaith fawr a chadarnhaol ar ddysg plant, gan roi mwy o hyder a hunangred i'r plant, gyda manteision mesuradwy i'w sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd. Mae'n bwysig oherwydd ar gyfer rhieni - yn arbennig y rhieni hynny yr ystyrir y rhai 'anoddaf eu cyrraedd - mae'r dymuniad i roi cefnogaeth well i blant yn aml yn gymhelliant allweddol i oresgyn unrhyw rwystrau ymarferol, ariannol neu agwedd at ddysgu. Yr un mor bwysig, mae dysgu fel teulu yn bwysig oherwydd ei fod yn ffynhonnell anogaeth, llawenydd ac undod i oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae'n rhywbeth y dylem ei ddathlu a'i gefnogi. Cred NIACE y dylai fod yn rhan o fywyd dydd-i-ddydd pob teulu.

Teuluoedd yw sylfaen ein cymdeithas. Mae'r teulu'n rhoi rhwyd ddiogelwch a hefyd sbringfwrdd ar gyfer gwneud lle yn y byd. Rhieni yw'r athrawon, mentoriaid a thywyswyr cyntaf ar gyfer plant a phobl ifanc. Dengys ymchwil fod gan blant lawer gwell cyfle o lwyddo mewn bywyd os yw eu rhieni'n ymwneud â dysgu. Eto caiff bywydau a chyfleoedd bywyd llawer gormod o blant eu rhwystro gan amgylchiadau eu geni a'u cyfyngu gan gyrhaeddiad addysgol gwael eu rhieni eu hunain. Nid oes problem fwy yn wynebu ein cymdeithas heddiw. Caiff miliynau o blant eu dal yn ôl, nid yn unig gan dlodi materol ond hefyd gan dlodi uchelgais a thlodi cyfle. Mae'r adroddiad hwn yn herio'r canfyddiad na allwn wneud dim i newid hyn. Gall dysgu fel teulu gau'r bwlch cyrhaeddiad a helpu rhoi diwedd i'r 'loteri cyfle bywyd' drwy greu diwylliant o uchelgais ym mhob teulu.

Mae dysgu fel teulu'n gweithio. Mae'n sicrhau gwell canlyniadau i blant a'u rhieni, a hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol mesuradwy ar ystod eang o agendâu polisi economaidd a chymdeithasol. Yn Lloegr, gwerir wyth gwaith yn fwy o arian ar ymateb i 'broblemau teuluoedd cythryblus' nag ar gyflenwi 'ymyriadau wedi eu targedu i droi eu bywydau o amgylch'.[1] Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synnwyr yn arbennig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol. Dyna pam fod NIACE yn gofyn i'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i feddwl yn gadarnhaol am deuluoedd, a thrwy ddysgu, helpu i'w gwneud yn gryfach, mwy cadarn ac yn fwy symudol yn gymdeithasol - yn gryno, i roi cyfle i bob plentyn lwyddo.



1 Department for Communities, Learning and Local Government (2013) *The Fiscal Case for Working with Troubled Families*, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/79377/20130208_The_Fiscal_Case_for_Working_with_Troubled_Families.pdf

## £9 biliwn



### Teuluoedd cythryblus


Amcangyfrifir fod cyfanswm cost teuluoedd cythryblus i senedd San Steffan tua £9 biliwn y flwyddyn. O hyn, mae £1 biliwn yn wariant wedi'i dargedu a £8 biliwn yn wariant ymatebol.[2] Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y gellid gostwng y cyfanswm costau'n sylweddol gyda mwy o ffocws ar fesurau ataliol sydd wedi'u targedu.

## Yr achos dros fuddsoddiad

Canfu astudiaeth yn yr Unol Daleithiau o raglen cyn-ysgol oedd yn cynnwys 1.5 awr yr wythnos o 'hyfforddiant rhieni', am bob doler a wariwyd pan oedd y cyfranogwyr yn ifanc, fod cymdeithas wedi arbed $12.90 erbyn iddynt fod yn 40 oed.[3]

Mae buddsoddi mewn rhaglenni dysgu fel teulu'n gwneud synnwyr. Mae dysgu fel teulu'n arbed arian i'r wlad. Mae'n ddull gweithredu cost-effeithlon a chynaliadwy; un ymyriad gyda chanlyniadau lluosog: helpu oedolion i wella eu sgiliau sylfaenol; cefnogi plant i wella eu sgiliau, gan felly dorri'r hyn a alwodd Ofsted yn 'gynffon hir tangyflawni';[4] a bod ag enghreifftiau amlwg ar iechyd a lles, cyflogadwyedd ac ymgysylltiad cymunedol. Mae un awdurdod lleol yn amcangyfrif fod enilliad o £7.58 ar fuddsoddiad am bob £1 a werir ar ddysgu fel teulu.[5]


Mae 3.5 miliwn o blant yn byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig heddiw. Mae hynny'n 27 y cant o blant, neu fwy nag un mewn pedwar.[6]



Fodd bynnag, nid dim ond am yr effaith economaidd mae hyn. Mae dysgu fel teulu'n gwella symudedd cymdeithasol. Mae'n galluogi teuluoedd i deimlo'n rhan o'u cymuned; mae'n datblygu hyder a hunan-barch; mae'n rhoi'r sgiliau i'r bobl y maent eu hangen i drin eu bywydau'n well a chanfod a llwyddo yn y gwaith; ac yn eu galluogi i weld ffordd allan o dlodi.

## Y bwlch cyrhaeddiad

Only Dim ond 36.8 y cant o ddisgyblion o gefndiroedd tlotach sy'n ennill gradd A*-C mewn TGAU Saesneg a mathemateg, o gymharu gyda 63 y cant ar gyfer pob disgybl arall, bwlch o 26.2 pwynt canran.[7]



NI allwn fforddio goddef sefyllfa lle mae cynifer â phum miliwn o oedolion yn Lloegr yn cael anawsterau gyda Saesneg bob dydd, tra bod wyth miliwn yn cael anawsterau gyda mathemateg bob dydd.[8] Mae lefelau anllythrennedd gweithredol yn uwch byth yng Nghymru.[9] Ar draws y Deyrnas Unedig, mae degau o filoedd o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb ddim neu ychydig iawn o gymwysterau ac, mewn llawer o achosion, sgiliau cyflogadwyedd gwael. Mae canlyniadau oedolion ifanc yn Lloegr ymysg yr isaf mewn profion llythrennedd a rhifedd rhyngwladol o gymharu gyda'r un grŵp oedran mewn gwledydd eraill yn y byd diwydiannol.[10] Os ydym o ddifrif am fynd i'r afael â'r materion hyn, mae'n rhaid i ni sicrhau na chaiff effeithiau cyfun dysgu fel teulu eu colli yn y gofodau rhwng seilos polisi.

2 Ibid, p.7.
3 Schweinhart, L.J., *et al* (2005) "Lifetime effects: The HighScope Perry Preschool study through age 40', monographs of the HighScope Educational Research Foundation, 14. Ypsilanti, MI: Highscope Press.
4 Ofsted (2013) *Unseen children: access and achievement 20 years on*, www.ofsted.gov.uk/resources/unseen-children-access-and-achievement-20-years
5 Addysg Oedolion a Dysgu fel Teulu Cyngor Dinas Sheffield 'Calculations towards an SROI analysis'.
6 Achub y Plant (2012) *Child poverty in 2012: It shouldn't happen here*, www.savethechildren.org.uk/sites/default/files/documents/child_poverty_2012.pdf
7 Adran Addysg; Data, Ymchwil ac Ystadegau: ffigurau ar gyfer 2011-12
8 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2011) *Skills for Life Survey*, www.gov.uk/government/publications/2011-skills-for-life-survey
9 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011) *Pa mor Deg yw Cymru?* www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/Wales/how_fair_is_wales.pdf
10 OECD (2013) Skilled for Life? Key findings from the *Survey of Adult Skills*

## Effaith dysgu fel teulu

Dengys ymchwil y gallai dysgu fel teulu gynyddu lefel gyffredinol datblygiad plant gan gymaint â 15 pwynt canran ar gyfer rhai o grwpiau difreintiedig[11] a rhoi gwelliant darllen cyfartalog yn gyfystyr â chwe mis o oedran darllen.[12]

Gwyddom yr effaith y gall sgiliau sylfaenol gwael ei gael ar ystod o ganlyniadau personol, cymdeithasol ac economaidd. Gwyddom y bydd plant sy'n dechrau'r ysgol dan anfantais, yn gyffredinol, nid yn unig yn parhau dan anfantais ond mewn gwirionedd yn cwympo ymhellach a phellach ar ôl. Dengys ymchwil ddiweddar erbyn iddynt fod yn saith oed fod y bwlch mewn canlyniadau TGAU yn y dyfodol rhwng plant cyfoethog a phlant tlawd eisoes wedi ei sefydlu.[13] Dim ond hyn a hyn o wahaniaeth y gall ysgolion ei wneud. Ar gyfer y rhai gyda'r sgiliau gwaelaf a'r lleiaf o gyfleoedd bywyd, mae'n rhaid ymgysylltu â'r holl deulu i ddatblygu ystod o sgiliau ac adnoddau sy'n hollwysig wrth drechu anfantais.

Gellir dod ag oedolion dan anfantais yn ôl i ddysgu a'u hannog i ddatblygu drwy eu teuluoedd. Mae dysgu fel teulu yn rhoi cam pwysau-isel, diogel a difyr yn ôl i addysg oedolion ffurfiol - un sy'n apelio at ddymuniad cryf rhieni i gefnogi eu plant. Mae'n cryfhau sgiliau cyfathrebu a mathemateg, yn datblygu hyder i ddysgu a gall fod yn garreg gamu i fwy o addysg a hyfforddiant. Mae'n cael effaith ar gyflogadwyedd ac ymgysylltiad mewn cymdeithas a gellir ei weithredu mewn gwahanol osodiadau, ei addasu i anghenion penodol unigolion a chyd-destunau lleol. Dylai dysgu fel teulu fod yn elfen nid yn unig o strategaethau addysg oedolion a sgiliau, ond dylai hefyd gael ei ymwreiddio mewn ystod o feysydd polisi, a gefnogir gan y cyllidebau hynny y mae'n gwneud cyfraniad atynt yn nhermau arbedion, er enghraifft iechyd a chyfranogiad cymunedol. Dylid ei gynnwys ym mholisïau a strategaethau adrannau llywodraeth i sicrhau canlyniadau trawsadrannol.

## Pam ymchwiliad i ddysgu fel teulu?

Lansiwyd yr Ymchwiliad i Ddysgu fel Teulu ym mis Hydref 2012 i gasglu tystiolaeth newydd o effaith dysgu fel teulu, i ddatblygu syniadau newydd a dylanwadu ar bolisi cyhoeddus.

Gwnaed penderfyniad NIACE i noddi'r ymchwiliad mewn ymateb i ostyngiad mewn darpariaeth yn Lloegr - dengys y ffigurau diweddaraf ostyngiad o 10.4 y cant mewn cyfranogiad mewn cyrsiau i'r teulu mewn Saesneg, mathemateg ac ieithoedd a gostyngiad o 3.4 y cant mewn cyfranogiad mewn darpariaeth ehangach dysgu fel teulu[14] - ac yng nghyd-destun pryderon cynyddol am ddiffyg cydlyniaeth strategol ar lefel llywodraeth. Yn dilyn ailstrwythuro asiantaethau cymorth cenedlaethol a thoriadau mewn cyllidebau awdurdod lleol, mae pryderon difrifol am ostyngiadau mewn hyfforddiant ac arbenigedd a'r effaith ar ansawdd darpariaeth.

Yng Nghymru, mae bron un plentyn mewn tri yn byw mewn tlodi ac mae lefelau llythrennedd oedolion yn is nag yn Lloegr. Gwreiddir ymagwedd Llywodraeth Cymru ar bolisi gwasanaethau teulu yn ei chenhadaeth i drechu tlodi plant. Mae'n cydnabod mai'r ffordd orau i gefnogi plant yw gweithio gyda'r holl deulu ac mae'n tanlinellu ymyriad ataliol a chynnar, gan annog ymagwedd drosfwaol 'tîm o amgylch y teulu'. Fodd bynnag, er fod rhai enghreifftiau o lefelau uchel o gydweithredu, mae'r darlun yn gyffredinol yn gymysg iawn. Mae angen clir i gasglu tystiolaeth o effaith er mwyn hyrwyddo dysgu fel teulu fel ymyriad effeithiol o ran cost, a gallai mwy o ddefnydd o hynny fynd i'r afael â bwriadau polisi Llywodraeth Cymru.

Yn y sefyllfa hon, ceisiodd yr Ymchwiliad i Ddysgu Fel Teulu annog syniadau newydd a hefyd syniadau mwy cadarnhaol am ddysgu fel teulu, a dangos sut y gall dysgu fel teulu atal pobl rhag 'diflannu' yn y bylchau a adewir gan grebachu cyllidebau. Clywn yn ddyddiol

11 Cyngor Dinas Sheffield, dadansoddiad o ddata disgyblion cyfnod sylfaen, 2011-2012

12 NRDC (2012) *Family learning: a review of the research literature*, www.niace.org.uk/sites/default/files/project-docs/family_learning_research_review_final_-_8_june_2011.pdf

13 Achub y Plant (2013) *Too young to fail:Giving all children a fair start in life*

14 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, datganiad cyntaf ystadegol Data Gwasanaeth, Ionawr 2013.

sut olwg sydd ar 'riant da', am 'deuluoedd cythryblus', mai rhieni sy'n gyfrifol am ddiet gwael, ymddygiad gwael, diffyg symudedd cymdeithasol ac yn y blaen, ond caiff llawer rhy ychydig ei ddweud am sut y medrem roi gwell cefnogaeth i'r teuluoedd hynny sy'n cael trafferth gyda thlodi, tai gwael a diffyg sgiliau i wneud yn well ar gyfer eu plant.

Mae'n amlwg i unrhyw un sydd erioed wedi gweithio gyda theuluoedd cythryblus fod y rhan fwyaf eisiau'r gorau i'w plant ac eisiau i'w plant wneud yn well nag a wnaethant hwy - ond efallai na wyddant sut i gyflawni hyn. Gall rhoi'r gefnogaeth y mae teuluoedd o'r fath ei hangen wneud gwahaniaeth enfawr, gan fynd i'r afael â'r ystod o ffactorau cymdeithasol sy'n tueddu i glystyru o amgylch oedolion gyda sgiliau gwael; er enghraifft tai ac iechyd gwaelach a mwy o gymryd rhan mewn troseddu.[15] Gwyddom fod oedolion gyda llythrennedd gwael yn tueddu cael plant gyda llythrennedd gwaelach.[16] Gall dysgu gael effaith drawsnewidiol ar y teuluoedd hyn. Aeth yr Ymchwiliad ati i edrych sut y gallai ymyriadau dysgu fel teulu gefnogi'r teuluoedd mwyaf agored i newid ac mewn risg, gan roi'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Canfu arolwg o rieni o fabanod saith mis oed ac iau nad yw **64 y cant o rieni byth yn rhannu llyfrau gyda'u babanod.** Mae'r ymchwil, a gynhaliwyd gan ICM ar ran Booktrust , yn awgrymu nad yw mwy na hanner teuluoedd (57 y cant) yn berchen ar ddim un llyfr i fabanod.[17]

Dangosodd arolwg yng Nghymru mai **ychydig dan hanner rhieni plant 3 i 7 oed yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf oedd yn edrych ar lyfrau gyda'u plant yn ddyddiol,** tra bod nifer y rhieni sy'n rhannu llyfrau gyda'u plant yn y grwpiau economaidd cyfoethocach draean yn uwch.[18]

*"Dengys ein profiad fod dysgu fel teulu yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr sy'n byw yn yr amgylchiadau mwyaf anodd ac anhrefnus. Mae'r dull yn gweithio oherwydd ei fod yn adeiladu ar y cadarnhaol tra'n canfod profiadau dysgu ar gyfer oedolion ar eu man dechrau. Mae dysgu fel teulu yn rhoi 'llwyddiannau' yn aml am y tro cyntaf i lawer o ddysgwyr. Mae'r llwyddiannau hyn yn cynyddu'r hunan-barch a'r hunanhyder mae cyfranogwyr ei angen i'w cydnabod eu hunain fel dysgwyr ac i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Heb y sgiliau hyn ni fyddent yn cael eu hystyried fel bod yn gyflogadwy. Gwelsom sut mae cynnydd dysgwyr yn effeithio ar yr holl deulu, partneriaid yn ogystal â phlant, a gall yn wir effeithio ar y gymuned."*

Rheolwr dysgu fel teulu

## Gwaith yr Ymchwiliad

Penodwyd grŵp o 11 comisiynydd i lywio'r Ymchwiliad, dan gadeiryddiaeth y Farwnes Valerie Howarth. Dros flwyddyn, fe gasglodd yr Ymchwiliad dystiolaeth, yn dangos lleisiau athrawon a dysgwyr sy'n ymwneud â dysgu fel teulu yn Lloegr a Chymru, drwy alw am dystiolaeth (ar ymarfer creadigol ac effaith ar ystod o agendâu polisi), seminarau arbenigol, grwpiau ffocws ac ymweliadau safle. Comisiynwyd adolygiad o ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ar effaith dysgu fel teulu a ffurfiwyd grŵp cyfeirio ymchwil i ystyried y dystiolaeth. Bu cyfres o gyfweliadau a ffilmiwyd yn casglu tystiolaeth bersonol am ddysgu fel teulu gan ddysgwyr, athrawon a rheolwyr. Gellir clywed eu lleisiau ar wahanol bwyntiau yn yr adroddiad hwn ac ar www.youtube.com/watch?v=EnmtXgNOgoM. Mae trosolwg o ganfyddiadau'r ymchwiliad ym Mhennod 3.

15 Bynner, J. a Parsons, S. (2006) *New Light on Literacy and Numeracy.* Llundain: NRDC
16 Adolygiad Ymchwil Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llythrennedd (2011) *Literacy: a route to addressing child poverty?*
17 Booktrust, crynodebau ymchwil Bookstart www.niace.org.uk/documents/Booktrust_evaluation.pdf
18 Llywodraeth Cymru (2013) Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012-13: Ymgysylltiad rhieni https://statswales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills

## Yr hyn mae'r comisiynwyr yn dymuno ei weldt the commissioners

Nid yw'r adroddiad hwn yn galw am fuddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn dysgu fel teulu, er y byddid yn croesawu hynny. Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar ymyriadau cost isel neu ddim cost sy'n adeiladu ar waith presennol ac yn anelu i sicrhau y caiff dysgu fel teulu ei gynllunio a'i gydlynu er budd gorau teuluoedd a chymunedau. Rydym eisiau gweld dysgu fel teulu yn cael ei adeiladu i gynnig creiddiol darpariaeth blynyddoedd cynnar a'i weld fel defnydd effeithlon o gyllid ysgolion, i sicrhau y caiff rhieni a gofalwyr plant, yn arbennig rai o gefndiroedd difreintiedig, gynnig cyfleoedd ansawdd uchel ar gyfer dysgu fel teulu.

### Ymgyfraniad



Dengys astudiaethau fod ymgyfraniad rhieni yn yr ysgol **fwy na phedair gwaith** mor bwysig â dosbarth economaidd-gymdeithasol wrth ddylanwadu ar berfformiad academaidd pobl ifanc 16 oed.[19]

Yn ychwanegol rydym eisiau gweld dysgu fel teulu yn cael ei integreiddio i strategaethau i ymgysylltu â'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur a gwella cyflogadwyedd lle dengys tystiolaeth y gall dysgu fod yn effeithlon iawn - efallai yn fwy felly nag unrhyw un ymyriad arall. Credwn ei bod yn llawer gwell buddsoddi arian cyhoeddus mewn rhaglenni cost-isel dysgu fel teulu na'i wario ar fynd i'r afael â chanlyniadau ein methiant i dargedu ymyriadau.

## Prif argymhellion

Cytunodd y comisiynwyr ar y prif argymhellion dilynol, a gynlluniwyd i gynyddu i'r eithaf effaith dysgu fel teulu ar blant a'u rhieni neu ofalwyr, ac ar amrediad o agendâu polisi (mae'r argymhellion llawn ym Mhennod 4).

1. Dylai dysgu fel teulu fod yn gyfannol i strategaethau ysgol i godi cyrhaeddiad plant a chau'r bwlch rhwng y rhai gyda'r cyrhaeddiad uchaf a'r rhai gyda'r cyrhaeddiad isaf.

2. Dylai dysgu fel teulu fod yn elfen allweddol mewn strategaethau addysg oedolion a sgiliau i ymgysylltu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur a gwella cyflogadwyedd, yn arbennig drwy ddarpariaeth Saesneg/iaith a mathemateg i'r teulu.

3. Dylai pob plentyn fod â'r hawl i fod yn rhan o deulu sy'n dysgu. Mae llawer o blant yn cael eu magu mewn teuluoedd a all gefnogi eu dysgu, ond nid felly bob plentyn. Dylai cyrff cyhoeddus dargedu cefnogaeth i helpu'r teuluoedd hynny

4. Dylai adrannau allweddol llywodraeth gynnwys dysgu fel teulu yn eu polisïau a'u strategaethau er mwyn sicrhau canlyniadau trawsadrannol.

5. Dylai llywodraethau Lloegr a Chymru adolygu'r cyllid ar gyfer a'r adolygiad o ddysgu fel teulu yn rheolaidd o gymharu â'r galw posibl.

6. Dylai fod fforwm genedlaethol ar y cyd ar gyfer dysgu fel teulu yn Lloegr a Chymru i gefnogi arfer ansawdd uchel ac arloesol, a pholisi, eiriolaeth, ymchwil a datblygu priodol.

19 Nunn, et al. (2007) *Factors influencing social mobility, Research Report No. 450,* Llundain: Adran Gwaith a Phensiynau

# PENNOD 1

## Beth yw dysgu fel teulu?



Yn y bennod yma nodwn beth yw dysgu fel teulu, ei ddulliau ac arfer ardderchog mewn dysgu fel teulu. Mae dysgu fel teulu wedi bodoli cyhyd ag y bu teuluoedd. Mae'r uned deuluol, fel arfer, yn fan diogel i ddatblygu ac ymarfer sgiliau newydd a dod wyneb i wyneb gyda phrofiadau newydd. I ni mae teulu yn unrhyw berthynas rhyng-genhedlaeth, yn seiliedig ar gyfrifoldeb rhieni neu berthynas, yn cynnwys rhieni maeth, gofalwyr a neiniau a theidiau/mamau-cu a thadau-cu. Gall dysgu yn y teulu ddigwydd mewn ystod eang o sefyllfaoedd, yn cynnwys cyfarfodydd teulu anffurfiol, edrych ar raglenni teledu a rhoi sylwadau arnynt, mewn grwpiau rhiant a phlentyn, mewn trafodaethau gydag ymwelwyr iechyd, a thrwy blant yn cefnogi oedolion gyda thechnoleg newydd.

Wrth ochr y math yma o weithgaredd anffurfiol mae ystod o raglenni strwythuredig i gefnogi dysgu yn y teulu. Mae rhaglenni dysgu fel teulu yn defnyddio nifer o draddodiadau - o lythrennedd oedolion a datblygu cymunedol i wella ysgolion ac ymgysylltu rhieni. Dylid eu hystyried fel pont rhwng dysgu anffurfiol yn y cartref a dysgu ffurfiol yn yr ysgol. Mae'r cenedlaethau'n dysgu gan a gyda'i gilydd ac, oherwydd fod dysgu wedi'i gysylltu gyda phrofiad ysgol, mae cyfleoedd i ymarfer dysgu ysgol yn y byd real yng nghyd-destun teulu a chymuned.

Mae rhaglenni dysgu fel teulu yn amrywio o ran hyd a chyfansoddiad ond fel arfer maent yn cynnwys amser i oedolion yn unig, lle bydd rhieni a gofalwyr yn gweithio ar eu hanghenion sgiliau - a allai gynnwys llythrennedd a rhifedd ac sy'n aml mewn cyd-destun mor amrywiol â hanes teulu neu fywyd gwyllt; amser i'r plant yn unig, cyfle i athrawon weithio gyda phlant ar agweddau neilltuol o'u datblygiad; a hefyd amser i oedolion a phlant weithio gyda'i gilydd, dysgu gyda'i gilydd, modelu ymddygiad a dysgu'r ffordd orau i gefnogi datblygiad plant.

> *Gallaf gofio'r tro cyntaf i fy mab ddod â'i waith cartref mathemateg adref. Doeddwn i ddim yn deall beth oedd yn ei ddweud oherwydd ei fod yn siarad am linellau nifer a thalpio. Doedd e ddim yn deall yr hyn roeddwn i'n siarad amdano chwaith, ond drwy fynd ar gwrs mathemateg i'r teulu rwy'n deall y termau a sut maent yn ei wneud yn yr ysgol. Rwy'n gallu rhoi mwy o help iddo.*
>
> Linda

Mae'r amrywiaeth o weithgaredd dysgu fel teulu yn amrywiol ac yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu ffurfiol i gyfleoedd dysgu ffurfiol gydag achrediad. Gall gynnwys rhaglenni Saesneg/iaith a mathemateg i'r teulu, rhaglen genedlaethol Bookstart, grwpiau Ysgolion Coedwig, dysgu teulu mewn llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, diwrnodau gwyddoniaeth teulu a chyrsiau rhianta. Mae ystod o raglenni posibl yn Atodiad 1.

Mae pob rhaglen dysgu fel teulu yn rhannu dull o ddysgu sy'n gwerthfawrogi'r teulu fel amgylchedd dysgu, yn adeiladu ar ddiwylliant a phrofiad y cartref, cefnogi twf perthynas deuluol a hyrwyddo diwylliant o uchelgais mewn oedolion a phlant ifanc. Pryd bynnag a sut bynnag mae dysgu fel teulu'n digwydd, mae'n ddysgu sydd â lles a datblygiad y plentyn yn ganolog iddo, wedi'i osod mewn cyd-destun dysgu ar gyfer yr holl deulu.
et in a context of learning for the whole family.


Y Teulu sy'n Dysgu: Datblygu diwylliannau o ddysgu yn y teulu
Dysgu blynyddoedd cynnar/ysgol
Plentyn yn unig
Ymgysylltiad ac ymgyfraniad rhieni mewn dysgu blyny-ddoedd cynnar/ysgol
Plentyn gydag ymgyfraniad rhiant
Dysgu trwy wneud (e.e. gweithgareddau yn y cartref; ymweld ag amgueddfeydd gyda'i gilydd)
Oedolyn a phlentyn gyda'i gilydd
Cwrs dysgu teulu rhyng-genhedlaeth
Oedolyn a phlentyn gyda'i gilydd
Cwrs dysgu teulu i oedolion yn unig (e.e. 'cadw lan gyda'r plant')
Oedolyn yn unig (gan rannu gyda'r plentyn yn y cartref)
Addysg oedolion yn ymwneud â'r teulu (e.e. cwrs rhianta)
Oedolyn yn unig
Dysgu cyffredinol i oedolion (e.e. dosbarth addysg oedolion, prentisiaeth)
Oedolyn yn unig
Dysgu trwy wneud (e.e. gweithio, gwirfoddoli)
Oedolyn yn unig

*Gall fy mhlant gael dechrau gwell mewn bywyd oherwydd mod i'n gwybod mwy sut i'w helpu*

Dysgwr

Defnyddiodd y comisiwn fodel (gyferbyn) i ddangos gwahanol gwahanol agweddau a haenau dysgu fel teulu, ac adlewyrchu ffocws yr Ymchwiliad. Mae'n disgrifio'r gwahanol fathau o weithgareddau y gall dysgu fel teulu ei gynnwys ac sy'n cyfrannu at ddatblygu diwylliant o ddysgu o fewn y teulu.

Gan ddefnyddio'r model yma, gwyddom fod yr ystod sefydliadau sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd sy'n dysgu gyda'i gilydd yn enfawr - o lyfrgelloedd i adrannau hamdden, o sefydliadau ffydd i'r BBC, o'r sector diwylliant i barciau gwledig.

## Sut olwg sydd ar ddysgu ardderchog i'r teulu?

Mae NIACE yn awgrymu y gellir amlinellu nodweddion darpariaeth dysgu ardderchog i'r teulu mewn pum egwyddor:

1. **Mae dysgu fel teulu yn ymwneud ag ymgysylltu teuluoedd mewn dysgu gyda'i gilydd.** Mae rhaglenni dysgu fel teulu ynglŷn â gweithio gyda'r oedolyn a'r plentyn. Mae eu prif bwrpas yn ymwneud â dysgu. Mae pob aelod o deulu yn ddysgwr gydol oes posibl ynddynt eu hunain: mae pob aelod o'r teulu angen mynediad i ddysgu, drwy ystod o lwybrau a phwyntiau mynediad.

2. **Mae dysgu fel teulu ynglŷn â grymuso teuluoedd i gymryd rheolaeth.** Mae ynglŷn â gwrando ar deuluoedd, dechrau o ble maent hwy, rhoi cyfleoedd ar gyfer dysgu mewn cyd-destunau ac ymarfer myfyriol. Mae'n galw am ymgyfraniad gweithgar teuluoedd wrth ddatblygu a siapio gwasanaethau a chydnabod eu harbenigedd.

3. **Mae dysgu fel teulu yn cydnabod cyd-destun a diwylliant.** Mae trefnwyr rhaglenni dysgu fel teulu yn datblygu a rheoli ystod o ymyriadau yn dibynnu ar gyd-destun, diwylliant, amseriad a materion mynediad; ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau ac asiantaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddod ynghyd â phob agwedd sy'n cyffwrdd ar fywydau teuluoedd.

4. **Mae dysgu fel teulu yn dechrau o fodel cadarnhaol ac nid diffyg.** Mae ymarferwyr yn ymdrechu i ddeall ac adeiladu ar gryfderau, gwybodaeth a sgiliau oedolion. Mae'n bwysig fod y rhai sy'n gweithio mewn dysgu fel teulu yn cydnabod grym economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, ac nad ydynt yn anfwriadol yn ymwneud ag erlid teuluoedd difreintiedig.

5. **Mae dysgu fel teulu yn cael ei gynllunio, ei ariannu a'i gyflwyno ar lefel strategol, p'un ai'n lleol neu genedlaethol.** Mae gan raglenni ddeilliannau dysgu clir, trefniadau astudio a gytunwyd, staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi, adnoddau digonol a chyfleoedd dilyniant clir.

Canfu arolwg Ofsted[20] fod y dysgu fel teulu mwyaf effeithlon yn cael ei nodweddu gan addysgu rhagorol, dull wedi'i gynllunio at ddatblygu dysgwyr, cynnig darpariaeth drwy gydol y flwyddyn ac mewn gwahanol leoliadau yn y gymuned, a chyfleoedd ar gyfer dysgu rhyng-genhedlaeth, ynghyd â chyfran glir ac wedi'i diffinio'n addas oedd â ffocws ar yr oedolyn. Dywedwn fwy am ffactorau llwyddiant ac elfennau dysgu da i'r teulu yn Atodiadau 4 a 5.

20 Ofsted (2009) An evaluation of the benefits of family learning for participants, their families and the wider community, www.ofsted.gov.uk/resources/family-learning

## Ein gweledigaeth o ddysgu fel teulu yn yr unfed ganrif ar hugain

Rhieni a gofalwyr sydd â'r dylanwad mwyaf ar les a chyrhaeddiad addysgol eu plant, ond mae rhai teuluoedd, beth o'r amser, angen cefnogaeth i uchafu cyfleoedd bywyd eu plant. Mae dysgu fel teulu ansawdd uchel yn ffordd effeithlon o ran cost o dargedu'r rhai sydd fwyaf o angen cefnogaeth, hybu uchelgais a chyrhaeddiad teuluoedd a chreu diwylliant o ddysgu a hunan-effeitholrwydd a all fod yn ganolog wrth fynd i'r afael â chyrhaeddiad isel, salwch meddyliol a chorfforol, troseddu a thrais, tra'n cefnogi uchelgais y llywodraeth ar gyfer plant, ysgolion, gostwng tlodi, iechyd, diwylliant a dinasyddiaeth

*'Roeddwn yn feichiog yn yr ysgol. Cefais fy mhlant yn ifanc. Rydw i eisiau dangos iddynt y gallant fynd ymlaen a gweud rhywbeth gyda'u bywydau. Fe wnaeth fy rhieni fy magu i ac roedden nhw ar fudd-daliadau. Rydw i eisiau dangos i fy mhlant na chewch chi'r pethau rydych eu heisiau os ydych chi ar fudd-daliadau'.*

Lisa

Caiff ein gweledigaeth o deuluoedd fel mannau dysgu ei seilio ar y cysyniad o'r teulu sy'n dysgu, a ddatblygwyd gan NIACE, sy'n dynodi'r ffactorau sy'n cyfrannu at ddiwylliant dysgu o fewn teulu:

> Yn y teulu sy'n dysgu, mae pob aelod yn ddysgwr gydol oes ynddo'i hun. Fodd bynnag, mae'n llawer mwy na chasgliad o unigolion ar raglenni dysgu: mae cyfuniad rhyng-genhedlaeth anogaeth ac ymgyfraniad yng ngweithgareddau dysgu ei gilydd gan bob aelod o'r teulu yn codi uchelgais ac yn creu newid hirdymor mewn diwylliant a phatrymau addysgu.[21]

Mae'r teulu sy'n dysgu 'yn cefnogi rhieni, neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu i gymryd rhan weithgar yn nysgu eu plant yn ogystal â dysgwyr ynddynt eu hunain, ac yn cydnabod fod y ddwy elfen yn hollbwysig wrth adeiladu cadernid mewn teuluoedd, wrth greu llesiant cymunedol, ffyniant economaidd a chydlyniaeth gymunedol.[22]

### Ymchwil

Canfu ymchwil Ofsted fod oedolion sy'n ymwneud â dysgu'n cymryd mwy o ran mewn bywyd ysgol ac yn gwella eu sgiliau rhianta, gan eu helpu i gyfathrebu'n well gyda'u plant a thrin eu hymddygiad yn well.[23]

*Mae ein Huned Teuluoedd Cythryblus yn awyddus iawn i atgyfeirio teuluoedd i gyrsiau, oherwydd un o'u prif ddeilliannau ar gyfer y flwyddyn i ddod ar gyfer eu teuluoedd yw cynyddu cyflogadwyedd a chael yr oedolion yn ôl i weithio. Gan fod gan mwyafrif helaeth teuluoedd anghenion llythrennedd sylweddol, ar draws y cenedlaethau, bydd yn amhosibl cyflawni hyn heb addysg a hyfforddiant. Fel y gwyddom, mae dysgu fel teulu yn ymgysylltu oedolion na fyddai byth yn defnyddio darpariaeth prif ffrwd; mae'n cynnig amgylchedd dysgu diogel ac anfygythiol i bobl y bu eu profiad blaenorol o ddysgu yn boenus iawn. Er y bydd gan rhai o'r teuluoedd cythryblus ffordd i fynd cyn y byddant mewn man lle gallant ymgysylltu gyda dysgu, i eraill hwn fydd yr ymyriad sy'n cydlynu cefnogaeth a gweithredu arall i fod yn rhywbeth a all wirioneddol eu symud ymlaen fel teulu*

Rheolwr dysgu teulu

21 NIACE (2009) The Learning Family: a NIACE briefing note, www.niace.org.uk/sites/default/files/learning_family_briefing.pdf
22 ibid
23 Ofsted (2009) An evaluation of the benefits of family learning for participants, their families and the wider community. www.ofsted.gov.uk/resources/family-learning

Mae'r teulu sy'n dysgu yn ddarn hanfodol yn fframwaith ehangach, rhyng-gysylltiedig dysgu gydol oes, y credwn sy'n hanfodol wrth greu newid cymdeithasol ac economaidd o'r bôn i'r brig. Mae dysgu fel teulu yn ymgysylltu'r rhai sydd bellaf o ddysgu ac o'r farchnad lafur, gan roi'r dull iddynt gefnogi eu plant wrth gyflawni a chyrraedd mwy, ac yn cynnig llwybrau dilyniant i addysg a hyfforddiant pellach ac i gyflogaeth.

Credwn fod gan ddysgu fel teulu ran hollbwysig wrth gyflawni polisi'r llywodraeth mewn ystod o feysydd. Fodd bynnag, i fod yn effeithlon, mae'n rhaid ei gydlynu'n gywir, mae'n rhaid iddo roi ystyriaeth i gyd-destun lleol a'r problemau sy'n effeithio ar deuluoedd ac, yn bennaf, gael ei dargedu at y rhai sydd fwyaf ei angen. Mae gan wleidyddion rôl hollbwysig fel arweinwyr. Yr her i lywodraeth genedlaethol a lleol, gan weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr dysg, cyrff cymdeithas sifil a rhanddeiliaid allweddol eraill, yw sicrhau cefnogaeth gydlynol sy'n cyrraedd y teuluoedd hynny sy'n profi'r problemau mwyaf sylweddol. Os gallwn sicrhau fod gan rieni a phlant fynediad i'r adnoddau y maent eu hangen i drin materion eu bywydau eu hunain, byddwn yn rhoi'r dulliau iddynt drawsnewid eu dyfodol hwy a dyfodol cymdeithas yn ehangach.

*'Mae'r cyrsiau wedi bod o hwb fawr i fy hyder ac wedi fy helpu i newid fy nghyfeiriad a fy ngyrfa. Mae gen i bellach swydd mewn gofal plant.'*

Linda

# PENNOD 2

# Dysgu fel teulu yn Lloegr a Chymru



Bu twf sylweddol mewn darpariaeth dysgu fel teulu - a'r gydnabyddiaeth o hynny mewn polisi cyhoeddus - drwy gydol y 1990au, a gafodd ei yrru, ymysg ffactorau eraill, gan bryder am 'safonau' llythrennedd. Datblygodd yr Uned Llythrennedd Oedolion a Sgiliau Sylfaenol fodel ar gyfer rhaglenni dysgu fel teulu gyda thair elfen ofynnol - cyfarwyddyd sgiliau sylfaenol ar gyfer rhieni, addysg llythrennedd gynnar ar gyfer plant ifanc a gweithgareddau rhiant/plentyn - a gefnogwyd gan y llywodraeth ac a ddaeth yn raddol yn brif ffrwd yn y Deyrnas Unedig. Datblygwyd y model i gynnwys rhifedd teulu ac iaith teulu. Ar yr un pryd, cyflwynwyd rhaglenni graddfa lai ar gyfer dysgu fel teulu, gyda gwahanol fathau o gyllid tymor byr.

## Datblygu dysgu fel teulu yn Lloegr

Newidiodd y sefyllfa gyllid yn 2001 gyda sefydlu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau yn Lloegr, a datblygu dwy ffrwd cyllid ar gyfer llythrennedd, iaith a rhifedd teulu, a dysgu ehangach i'r teulu. Cydnabu ymyriadau polisi, megis Cronfa Effaith Dysgu fel Teulu, rôl dysgu fel teulu wrth gynyddu cynhwysiant cymdeithasol a gostwng trosglwyddo anfantais o un genhedlaeth i'r llall. Adlewyrchwyd hyn mewn dogfennau megis *Every Child Matters*[24] a *Every Parent Matters*,[25] yn ogystal ag ym muddsoddiad y llywodraeth. Rhwng 2008 a 2009 gwariodd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (cyn Mehefin 2009, DIUS) £25 miliwn y flwyddyn yn cyflwyno rhaglenni llythrennedd teulu, iaith a rhifedd a £12 miliwn y flwyddyn ar ddysgu fel teulu yn ehangach.

Gyda chyhoeddi *New Challenges, New Chances*,[26] dangosodd y glymblaid ymrwymiad i roi cefnogaeth ariannol i'r rhai mwyaf difreintiedig a'r rhai sydd leiaf tebygol o gymryd rhan mewn dysgu yn y gymuned. Nod cyflwyno cynllun peilot Ymddiriedolaethau Dysgu yn y Gymuned yn 2012-13 oedd sicrhau fod cyllid dysgu yn y gymuned yn diwallu anghenion lleol unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan brofi gwahanol ddulliau o gynllunio, cyflenwi ac ariannu dysgu yn y gymuned. Fodd bynnag, er y gefnogaeth hon, daeth dysgu fel teulu yn raddol yn rhan llai amlwg o drafodaeth polisi gyhoeddus.

Bu gostyngiad cyfatebol mewn cyfranogiad mewn rhaglenni cyllid cyhoeddus ar gyfer dysgu fel teulu. Gostyngodd cyfranogiad mewn rhaglenni dysgu fel teulu gan 6.7 y cant yn 2010-11 - gyda 10,100 yn llai o rieni a gofalwyr yn defnyddio'r rhaglenni o gymharu gyda 2009-10. Parhaodd y niferoedd i ostwng, gyda gostyngiad o 10.8 y cant mewn cyfranogiad mewn cyrsiau Saesneg, mathemateg ac ieithoedd i'r teulu a gostyngiad o 3.8 y cant mewn cyfranogiad mewn darpariaeth dysgu fel teulu yn ehangach.[27] Mae'n debygol i'r gostyngiad hwn mewn cyfranogiad gael ei achosi gan gyllideb sefydlog ac nid gan gwymp mewn galw, gyda llai o raglenni dysgu fel teulu'n cael eu cynnig. Ymddengys fod pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol a newid mewn polisi dysgu fel teulu yn tanseilio buddsoddiad blaenorol y llywodraeth mewn rhaglenni allestyn i'r gymuned a datblygu rhaglen. Os yw diffyg cydlynu canolog ac erydu nifer dysgwyr yn parhau, caiff y rhwydweithiau araf i dyfu ond

24 Adran Addysg a Sgiliau (2004) *Every Child Matters: Change for Children*

25 Adran Addysg a Sgiliau (2007) *Every Parent Matters*

26 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2011) *New Challenges, New Chances: Further education and skills system reform plan: Building a world class system*, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/32313/11-1380-further-education-skills-system-reform-plan.pdf

27 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, datganiad cyntaf ystadegol Gwasanaeth Data, Mehefin 2013

hanfodol sy'n sylfaen i ddysgu fel teulu eu colli. Bydd y gost o'u hail-greu yn llawer mwy na'r gost flynyddol o'u cynnal.

Mae lleisiau yn y sector, yn cynnwys Ofsted, wedi codi pryderon am ddiffyg corff arweiniol cenedlaethol ac unrhyw gydlynu strategol ar lefel y llywodraeth. Mae adroddiadau anecdotaidd yn awgrymu fod rhaglenni'n cael trafferth gyda materion cyllid a bod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd. Mae'n amlwg fod angen deall y datblygiadau hyn yn well, ac yn neilltuol, pwy sy'n defnyddio darpariaeth dysgu i'r teulu a phwy sydd ddim.

## Datblygu dysgu fel teulu yng Nghymru

O'r un dechreuad yn yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, daeth llythrennedd teulu a rhifedd teulu yn rhan o Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol Cymru (2001). Mae rhaglenni wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru wedi parhau ers hynny, gydag adolygiadau a mireinio'r cynlluniau yn arwain at ffocws cynyddol ar gyrraedd teuluoedd a chymunedau difreintiedig a phlant sy'n tan-gyflawni. Rhoddir cyllid craidd, yn bennaf o raglen grant blynyddoedd cynnar, i awdurdodau lleol - a all ychwanegu at y cyllid o ffynonellau eraill. Yn ymarferol, mae cryn amrywiad, gyda rhai rhaglenni dysgu fel teulu'n cael eu cyflwyno bron yn llwyr mewn ysgolion dethol ac eraill yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cysylltu'n agos gyda gwasanaethau teulu yn ehangach.

Ni fu erioed gronfa benodol yng Nghymru ar gyfer dysgu fel teulu yn ehangach. Fodd bynnag, mae mudiadau cymunedol a thrydydd sector yn cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu fel teulu, a gaiff yn aml eu hariannu ar sail prosiect unigol. Gall sefydliadau mwy, megis yr amgueddfeydd mwy, adeiladu rhaglenni o weithgaredd dysgu fel teulu i'w darpariaeth addysgol a strategaethau ymgysylltu.

Nid yw'n syndod, o gofio am nod Llywodraeth Cymru o greu Cymru ddwyieithog, fod ffrwd sylweddol o ddysgu fel teulu yn gysylltiedig gyda dysgu'r Gymraeg. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Booktrust Cymru i gyflwyno ystod o raglenni y bwriedir iddynt ddarparu llyfrau a gweithgareddau ac annog rhieni a gofalwyr eraill i'w rhannu gyda phlant yn y cartref.

## Pwy sy'n defnyddio darpariaeth a phwy sydd ddim?

Targedwyd rhaglenni dysgu fel teulu at deuluoedd difreintiedig, yn aml mewn ardaloedd incwm isel. Yn ychwanegol, mae cynrychiolaeth dda o rieni a gofalwyr du a lleiafrif ethnig [gweler Atodiad 7].

Er bod dysgu fel teulu a ariannir yn gyhoeddus wedi llwyddo i ymgysylltu â phobl o gymunedau difreintiedig lle mae cyfranogiad oedolion yn nodweddiadol yn isel, mae rhai tueddiadau sy'n achosi pryder, sy'n awgrymu y gallem wneud mwy i ledaenu cyfranogiad mewn dysgu fel teulu. Bu'n wir ers peth amser mai menywod sy'n defnyddio mwyaf ar ddysgu fel teulu, ac mai'r grwpiau a gaiff eu tangynrychioli fwyaf yw dynion a rhieni, neiniau a theidiau a gofalwyr o'r naill ben i'r llall i'r ystod oedran. Caiff oedolion gydag anabledd hefyd eu tangynrychioli [gweler Atodiad 7].

Mae'n achos pryder arbennig fod rhieni a gofalwyr iau a hŷn yn cael eu tangynrychioli mewn darpariaeth a gefnogir yn gyhoeddus. Mae rhieni ifanc, yn arbennig, yn aml yn cael trafferth gydag arwahanrwydd cymdeithasol, a hwy'n aml sydd angen mwyaf o gefnogaeth. Mae angen i ddysgu fel teulu fod yn fwy cynhwysol, gan ddenu mwy o ddysgwyr gydag anhawster dysgu neu anabledd, yn ogystal â mwy o dadau a gofalwyr gwryw. Canfu'r ymchwiliad fod angen gwella mynediad i raglenni dysgu fel teulu mewn rhai ardaloedd gwledig. Mae'n bwysig ein bod yn dod o hyd i ffyrdd i ymestyn cyrraedd darpariaeth dysgu fel teulu. Gwyddom, pan gaiff cyllid a dyluniad rhaglen ei dargedu, fod ganddo'r gallu i ddenu'r grwpiau hyn a dan-gynrychiolir.

Mae canfyddiadau'r Ymchwiliad yn cadarnhau pa mor effeithlon y gall dysgu fel teulu fod wrth ymgysylltu â phobl o gefndiroedd difreintiedig. Nid yw hyn, mewn ffordd, yn annisgwyl - mae dymuno'r gorau i'w plant yn gymhelliant grymus i deuluoedd gymryd rhan mewn dysgu. Mae pob rhiant yn dymuno gwell bywyd i'w plant - a gall hyn fod yn fachyn hollbwysig i'r rhieni a'r gofalwyr hynny yr oedd eu profiadau cynnar eu hunain o addysg yn negyddol ac sydd, efallai, yn dal i ofni dychwelyd i ystafell ddosbarth, ynghyd â materion yn gysylltiedig gyda hyder a hunan-barch. Mae, wrth gwrs, deuluoedd sydd â phroblemau mwy ac sydd angen cefnogaeth ddwys. Fodd bynnag, gall y teuluoedd hyn hefyd fanteisio o'r profiadau cadarnhaol o gymryd rhan mewn dysgu fel teulu. Yn wir, mae dysgu fel teulu'n hanfodol i helpu teuluoedd i symud ymlaen.

Mae pob cenhedlaeth yn manteisio pan fo dysgwyr yn dysgu gyda'i gilydd. Mae rhieni yn fwy hyderus a galluog; mae eu plant yn anelu'n uwch ac yn cyflawni mwy. Mae'n achos pryder, felly, mewn cyfnod o argyfwng economaidd - gyda llawer o deuluoedd yn cael anhawster i ddod â dau ben llinyn ynghyd - y dylem fod yn gweld gostyngiad yng nghyfanswm y nifer sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu fel teulu, o leiaf fel y dangosir yn y data ar gyfer Lloegr. Dengys ymchwil fod dysgu fel teulu yn adeiladu unigolion cryf a chymunedau cydlynol ac yn galluogi plant i ddatblygu sgiliau ar gyfer gwaith, bywyd a chymuned.[28] Dyma'r sgiliau y byddwn angen llawer ohonynt wrth i ni geisio dod allan o'r hinsawdd bresennol o gyfyngiadau ariannol.

28 NRDC (2012) *Dysgu fel teulu: adolygiad o'r llenyddiaeth ymchwil,* www.niace.org.uk/sites/default/files/project-docs/family_learning_research_review_final_-8_june_2012.pdf

# PENNOD 3

# Effaith dysgu fel teulu



Mae'r adran yma'n dod ynghyd â'r dystiolaeth sydd ar gael ar effaith dysgu fel teulu - ar gyrhaeddiad plant, ar gyrhaeddiad rhieni a gofalwyr, ac ar nifer o agendâu polisi pwysig. Mae angen mwy o ymchwil yma. Amlygwn y meysydd lle mae'r angen hwn amlycaf.

## Ymchwil

'.... dengys ymchwil fod ymgyfraniad rhieni mewn dysgu plant yn ffactor allweddol wrth wella cyrhaeddiad a chyflawniad academaidd plant, yn ogystal â'u hymddygiad a phresenoldeb yn gyffredinol. Rôl rhieni yn ystod blynyddoedd cynharaf plentyn yw'r dylanwad mwyaf ar eu datblygiad. Mae dysgu ansawdd da yn y cartref yn cyfrannu mwy at ddatblygiad deallusol a chymdeithasol plant na swydd, addysg neu incwm rhieni. Mae agweddau, uchelgais ac ymddygiad rhiant i gyd yn bwysig, yn ogystal â'u gallu i:

- ddeall cynnydd dydd-i-ddydd eu plentyn;
- cynnal dysgu teulu gyda'i gilydd;
- siarad yn rheolaidd gyda'u plentyn am eu dysgu.

I rai rhieni, gall fod yn anodd datblygu'r hyder yma ... yn arbennig os ydynt hwythau hefyd angen help gyda'u sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd eu hunain.'

**Adran Addysg,** Ebrill 2012

www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/families/a00203160/role-of-parents-in-childs-learning; cyrchwyd Mawrth 2013.

## Yr hyn a ganfu'r Ymchwiliad i Ddysgu fel Teulu

Canfu'r Ymchwiliad fod tystiolaeth o effaith dysgu teulu ar sgiliau, galluoedd ac uchelgais plant a'u rhieni a gofalwyr; ar allu rhieni a gofalwyr i gynorthwyo gydag addysg a datblygiad eu plant; ac ar ystod o agendâu polisi eraill hollbwysig, yn cynnwys cyflogadwyedd, iechyd a lles ac ymgyfraniad cymunedol.

Mae ymchwil yn rhoi tystiolaeth neilltuol o gryf fod rhaglenni iaith a mathemateg i deuluoedd o fudd i sgiliau plant, yn ogystal â rhai rhieni a gofalwyr. Mae tystiolaeth feintiol arbennig o gryf o'r effaith ar gyrhaeddiad plant.

Yn ychwanegol dangosodd tystiolaeth fod gan ddysgu fel teulu fanteision ehangach pwysig, yn cynnwys effaith ar hyder oedolion, hunanbarch, cymhelliant i ddysgu, sgiliau ac arferion rhianta, iechyd a lles, cyflogadwyedd, symud ymlaen i ddysgu pellach, gwella integreiddio ac ymgyfraniad yn y gymuned, ymgyfraniad mewn diwylliant a chwaraeon, a gostwng aildroseddu. Mae llai o dystiolaeth feintiol ar effaith dysgu fel teulu ar y manteision ehangach hyn.Yn aml nid yw gwerthuso rhaglenni dysgu teulu ehangach yn cael digon o adnoddau ac mae'n seiliedig ar ddefnydd cyfweliadau a data arsylwadol, ynghyd â thystiolaeth bersonol y cyfranogwyr. Serch hynny, mae adroddiadau cyson am fanteision ehangach dysgu teulu'n cadarnhau ei effaith gadarnhaol ac yn amlygu'r angen i'r bylchau ynni hyn gael eu trin.

## Effaith ar gyrhaeddiad plant

*Mae fy mab yn dysgu'n gyflymach nawr oherwydd ei fod yn cael help gartref yn ogystal ag yn yr ysgol*

Allan

Bu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol yn fater anodd am flynyddoedd lawer. Mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu mai ymyriadau blynyddoedd cynnar sy'n cael yr effaith fwyaf ar gyrhaeddiad plant.

Roedd rhaglen SPOKES ('Supporting Parents on Kids' Education in Schools)[29] yn targedu plant oedd newydd ddechrau yn yr ysgol gynradd ac yn anelu i drin dau fater mewn un ymyriad: anawsterau darllen a phroblemau ymddygiad plant. Canfu prawf ymchwil i'r grŵp ymyriad mewn un flwyddyn ddangos gwelliant darllen cyfartalog yn gyfwerth â chwe mis o oedran darllen, ar ben y datblygiad a ddisgwylir gan blant o'r oedran hwn; fe wnaeth plant hefyd wella eu sgiliau ysgrifennu a'u hymddygiad. Fe wnaeth rhieni wella eu defnydd o strategaethau darllen gyda'u plant. Er llwyddiant y rhaglen yma, nid yw'n ymddangos iddi gael ei defnyddio'n eang.

Mae tystiolaeth dda am effaith ymgyfraniad rhiant mewn addysg plentyn. Gall fod yn ffactor allweddol wrth bontio'r bwlch cyrhaeddiad a hyrwyddo symudedd cymdeithasol. Wrth ymchwilio tystiolaeth ryngwladol ar ddysgu fel teulu, canfu Sénéchgal a Young[30] i'r rhaglenni lle'r oedd rhieni'n addysgu sgiliau darllen i'w plant gael effaith sylweddol ar y sgiliau hynny, o gymharu gyda sgiliau darllen y plant hynny na dderbyniodd y gefnogaeth ychwanegol hon gan rieni.

Dengys ymchwil a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree fod y bwlch cyrhaeddiad sy'n dod i'r amlwg yn gynnar ym mywydau plant yn parhau drwy gydol eu plentyndod ac i fywyd fel oedolion. Canfu adolygiad y Sefydliad o dystiolaeth ar gyfer ymyriadau effeithlon fod ymgyfraniad rhieni mewn addysg plant yn cael dylanwad achosol ar barodrwydd plant ar gyfer yr ysgol, a chyrhaeddiad dilynol. Mae'n dadlau fod hyn yn awgrymu y dylai ffocws uniongyrchol ar bolisi ac ymarfer fod ar ddatblygu dull hollol gost-effeithlon o gyflenwi'r math yma o ymyriad a sicrhau monitro parhaus manwl.

Mewn blynyddoedd diweddar, dechreuodd awdurdodau lleol gasglu a dadansoddi data ar effaith dysgu teulu ar gyrhaeddiad plant. Gan edrych ar ddisgyblion y bernir eu bod yn cyflawni lefel dda o ddatblygiad cyffredinol ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, dangosodd dadansoddiad Cyngor Dinas Sheffield fod y gwahaniaeth rhwng y disgyblion hynny sy'n cymryd rhan mewn rhaglen dysgu fel teulu gymaint â 15 pwynt canran yn uwch ar gyfer rhai grwpiau o gymharu â'r rhai nad ydynt wedi cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu fel teulu.[32]

Wrth gwrs, nid yw pob ymyriad o werth cyfartal. Canfu'r economegydd James Heckman, enillydd gwobr Nobel, a'i gydweithwyr mai'r rhaglenni hynny sy'n dangos buddion hirdymor a chynaliadwy yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad an-wybyddol ac nid dim ond gwella sgiliau gwybyddol.[33] Mae rhaglenni dysgu fel teulu yn arbennig o addas i sicrhau'r newidiadau cynaliadwy hyn mewn nodweddion an-wybyddol mewn plant a rhieni. Dangosodd astudiaeth hydredol o brosiect dysgu fel teulu yn Nhwrci fod gan blant a gymerodd ran yn y prosiect ganlyniadau addysgol gwell hyd at ac yn cynnwys y brifysgol a hefyd yn tueddu i fod â statws galwedigaethol uwch fel oedolion.[34]

Nid yw effaith dysgu fel teulu ar blant wedi'i gyfyngu i gyrhaeddiad. Canfu arolwg Ofsted o athrawon plant yn cymryd rhan

29 Sylva K, *et al* (2008) 'Training parents to help their children to read: A randomised control trial', *British Journal of Educational Psychology* 78(3) 433-456, Wiley.

30 NRDC (2012) *Dysgu fel teulu: adolygiad o'r llenyddiaeth ymchwil*, www.niace.org.uk/sites/default/files/project-docs/family_learning_research_review_final_-8_june_2012.pdf

31 Carter-Wall, C. a Whitfield, G. (2012) 'The role of aspirations, attitudes and behaviour in closing the educational attainment gap'; Sefydliad Joseph Rowntree

32 NIACE (2013) A summary of research and evidence of the impact of family learning

33 Heckman, J.J., Moon, S.H., Pinto, R., Savelyev, P.A., Yavitz, A. (2009) The Rate of Return to the High/Scope Perry Preschool Program, IZA DP Rhif 4533

34 Heckman, J.J, Moon, S.H., Pinto, R., Savelyev, P.A., Yavitz, A. (2009) The Rate of Return to the High/Scope Perry Preschool Program, IZA DP No. 4533

mewn cyrsiau dysgu fel teulu fod plant yn setlo'n well yn y dosbarth a bod ganddynt well perthynas gyda'u cymheiriaid a'u hathrawon. Teimlai aelodau fod y plant hyn wedi dod yn fwy hunan hyderus ac wedi gwella eu sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol.[35]

Canfu gwerthusiad o'r rhaglen Dads in Demand o dros 400 teulu bod 95 y cant o'r tadau wedi nodi gwell perthynas gydag ysgol eu plentyn. Dywedodd 54 y cant o dadau y byddent yn awr yn mynd i siarad gydag athrawon, mynd i ddigwyddiadau ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol tra na fyddent wedi gwneud hynny'n flaenorol.[36]

## Effaith ar gyrhaeddiad rhieni/gofalwyr

*Fe wnes adael yr ysgol yn 17 ar ôl cael fy mhlentyn cyntaf a chredwn mai dyna oedd diwedd fy hanes academaidd. Ar ôl cael dau blentyn arall fe wnes ymrestru ar gwrs mewn dysgu fel teulu ... roeddwn bob amser wedi meddwl fod addysg uwch tu allan i fy ngafael ond fe ddangosodd y cyrsiau yma i mi y medrwn ei wneud. Rwy'n awr wedi mynd ymlaen i gael gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Astudiaethau Plentyndod ym Mhrifysgol Leeds ac ar y rhestr aros i ddechrau fy MA mewn Gwaith Cymdeithasol.*

Cathy

Mae tystiolaeth yn dangos effaith dysgu fel teulu ar gyrhaeddiad plant a hefyd ar gyrhaeddiad eu rhieni. Dengys ystadegau y Llywodraeth i 58,000 o oedolion ymrestru ar raglenni Saesneg, mathemateg a rhifedd teulu yn Lloegr yn 2011-12, bod 50,900 (87.8 y cant) wedi cyflawni eu nodau dysgu, ac o 72,800 o oedolion yn dilyn rhaglenni dysgu fel teulu ehangach, bod 67,500 (92.7 y cant) wedi cyflawni eu nodau dysgu.[37] Canfu gwerthusiad o raglenni llythrennedd a rhifedd teulu gan Brooks et al. welliannau ystadegol arwyddocaol mewn sgiliau llythrennedd ar gyfer rhieni. Canfu astudiaeth ddilynol ddwy flynedd yn ddiweddarach y cynhaliwyd yr enillion sgiliau hyn.[38]

Canfu astudiaeth arall, gan Swain et al, fod y gyfran gyfartalog o rieni yn ennill cymhwyster (yn edrych ar raglenni llythrennedd teulu yn unig) yn 71 y cant ar gyrsiau safonol.[39]

Mae dilyniant yn un o brif nodau rhaglenni dysgu fel teulu, sy'n aml yn rhoi cam cyntaf hollbwysig yn ôl i ddysgu ffurfiol. Dywedodd adolygiad o raglenni a gefnogwyd gan FLIF ('Family Learning Impact Fund'),[40] a dargedwyd at deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig, i 85 y cant o sampl o 2,643 o ddysgwyr brofi rhyw fath o gynnyddar ôl cymryd rhan mewn cwrs FLIF. Yn ychwanegol:

- **Dywedodd 61 y cant iddynt gael cynnydd yn nhermau** eu dysg neu gyflogaeth eu hunain. Mae hyn yn cynnwys symud ymlaen i gwrs arall dysgu fel teulu, lefel uwch o ddysg, unrhyw ddysgu neu hyfforddiant arall, neu swydd newydd neu gwell.
- **Dywedodd 60 y cant y bu cynnydd yn eu bywydau cymdeithasol a phersonol.** Mae hyn yn cynnwys cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol a chynnydd mewn hyder personol.
- **Dywedodd 59 y cant eu bod yn gallu cefnogi dysgu a datblygiad eu plant yn well.**

Canfu gwerthusiad gan Ofsted yn 2009 fod y rhan fwyaf o oedolion ar lawer o raglenni wedi symud ymlaen i gyrsiau hirach lle'r oedd

35 Ofsted (2009) An evaluation of the benefits of family learning for participants, their families and the wider community www.ofsted.gov.uk/resources/family-learning

36 NIACE (2013) *A summary of research and evidence of impact of family learning*

37 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau: Datganiad gyntaf ystadegol y Gwasanaeth Data, Ionawr 2013.

38 NRDC (2012) *Dysgu fel teulu: adolygiad o'r llenyddiaeth ymchwil,* www.niace.org.uk/sites/default/files/project-docs/family_learning_research_review_final_-8_june_2012.pdf

39 Ibid, t.15.

40 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2013) *Family Learning Impact Fund 2008 i 2011:* Summary paper, www.gov.uk/government/publications/family-learning-impact-fund-2008-to-2011-summary

Sgiliau Bywyd yn fwy canolog, gyda llawer yn mynd ymlaen i gymwysterau dysgu a galwedigaethol pellach ac eraill i wirfoddoli yn ysgol eu plentyn neu eu cymuned leol.[41]

## Effaith ar draws agendâu polisi eraill

Canfu'r Ymchwiliad dystiolaeth o effaith dysgu fel teulu ar ystod o feysydd polisi eraill.

Mae ennill cyflogaeth a sgiliau ar gyfer cyflogaeth yn fudd allweddol a deilliant dilyniant i rieni sy'n cymryd rhan mewn dysgu fel teulu yn Lloegr, yn ôl astudiaeth Ofsted. Mae rhieni'n aml yn symud ymlaen i swyddi ar dâl, megis cymhorthwyr addysgu neu arolygwyr amser cinio, gan yn aml ddechrau o lefelau isel iawn o hyder a chymhwyster. Mae Ofsted yn adrodd y cafodd dysgu fel teulu effaith hirdymor ar gyflogaeth mewn un ardal ddifreintiedig, gyda 15 y cant o'r oedolion a gymerodd ran yn y rhaglen yn canfod gwaith dros gyfnod o dair blynedd.[42] Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar y gyfradd cyflogaeth ar gyfer yr ardal ac ar incwm aelwydydd, a gododd gan wyth y cant. Mae hyn yn fras debyg i ganfyddiadau'r adolygiad diweddar o lwybrau dilyniant cyfranogwyr yn y Gronfa Effaith Dysgu fel Teulu, lle'r oedd 17 y cant o gyfranogwyr wedi mynd ymlaen i gyflogaeth newydd neu well.[43]

*Mae mynd yn ôl i ddysgu wedi newid fy mywyd yn llwyr er gwell, nid dim ond oherwydd mod i'n gweithio ond oherwydd bod gen i rywbeth i'w gynnig nawr. Rydw i hefyd yn teimlo fy mod yn gwybod llawer mwy amdanaf i fel person nag oeddwn o'r blaen. Rydw i'n teimlo'n gyflawn*

Dysgwr

Mae hefyd dystiolaeth fod cymryd rhan mewn dysgu fel teulu yn gwella iechyd a lles. I roi un enghraifft, canfu gwerthusiad o'r rhaglenni Skilled for Health oedd yn cynnwys gweithgareddau dysgu fel teulu, y dywedodd 88 y cant o'r cyfranogwyr eu bod yn bwyta'n fwy iach erbyn diwedd y cwrs, a dywedodd 65 y cant arall eu bod yn ymarfer yn fwy aml. [44]

*Fe wnes gwrs bwyta'n iach oedd yn dda oherwydd iddo ddweud wrthym am y maeth y dylai ein plant fod yn ei gael - yn hytrach na chael bag o greision allan o'r cwpwrdd fel o'r blaen*

Zoe

Mae dysgu fel teulu hefyd yn gwella cysylltiadau rhwng teulu a sgiliau ac arferion rhianta. Cadarnhaodd adolygiad diweddar gan yr Adran Busnes a Sgiliau (BIS) dystiolaeth fod dysgu fel teulu yn:

- gwella agweddau rhianta,
- gostwng straen ar rieni,
- cynyddu gwybodaeth o ddatblygiad plant,
- gwella sgiliau rhianta, a
- cefnogi'r cwlwm gyda phlant.[45]

*Mae wedi helpu i roi awyrgylch gadarnhaol dda adre.*

Lisa

Ymhellach, canfu astudiaeth BIS dystiolaeth o sut y gall dysgu fel teulu hybu ymgyfraniad y gymuned, integreiddio a gwirfoddoli. Roedd y buddion ehangach a ddynododd yn cynnwys ymdeimlad o gymuned, mwy o gydlyniaeth gymdeithasol, mwy o integreiddio i'r gymuned a chynyddu gallu teuluoedd i eiriol drostynt eu hunain a'u cymuned.

*Rydw i wedi gwirfoddoli yn yr ysgol ers i mi wneud y cwrs cyntaf. Rydw i wedi bod yn llywodraethwr ysgol. Rydw i'n gadeirydd y bwrdd partneriaeth yn y ganolfan. Rydw i hefyd yn goruchwylio amser cinio yn yr ysgol, ar ôl bod yn gwirfoddoli.*

Zoe

41 NRDC (2012) *Dysgu fel teulu: adolygiad o'r llenyddiaeth ymchwil,* www.niace.org.uk/sites/default/files/project-docs/family_learning_research_review_final_-8_june_2012.pdf

42 Ofsted (2009) An evaluation of the benefits of familiy learning for participants, their families and the wider community, www.ofsted.gov.uk/resources/family-learning

43 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2013) *Family Learning Impact Fund 2008 to 2011: Summary paper,* www.gov.uk/government/publications/family-learning-impact-fund-2008-to-2011-summary

44 www.tavinstitute.org/projects/evaluation-of-phase-two-skilled-for-health

45 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2012) Evidence of the wider benefits of family learning: A scoping review, www.gov.uk/government/publiccations/evidence-of-the-wider-benefits-of-family-learning-a-scoping-review

Caiff y canfyddiadau hyn eu cefnogi gan ymchwil arall. Mewn astudiaeth mewn un awdurdod lleol o dros 1,000 o rieni a ddaeth i raglenni dysgu fel teulu, dywedodd bron eu hanner eu bod yn awr yn ymwneud mwy ym mywyd yr ysgol a'r gymuned.

Canfu'r Ymchwiliad fod rhaglenni dysgu fel teulu yn gatalydd ar gyfer newidiadau hirdymor yn uchelgais, hyder a chyfleoedd plant ac oedolion. Fodd bynnag, mae bylchau yn yr ymchwil. Mae angen llawer o adnoddau i gynnal ymchwil gadarn ac nid yw'r ddarpariaeth fel arfer yn cynnwys digon o gyllid i gasglu a dadansoddi data mewn ffordd systematic a thrwyadl. Credwn ei bod yn hanfodol fod y bylchau hyn yn cael eu trin. Mae ardaloedd addawol ar gyfer ymchwil yn cynnwys astudiaethau hydredol o effaith, profion rheoli ar hap a mesur adenillad ar fuddsoddiad.

46 NIACE (2013) A Summary of Research and Evidence of Impact of Family Learning, www.niace.org.uk/current-work/family-learning-inquiry

# PENNOD 4

## Negeseuon allweddol



Gwyddom fod 'cynffon hir tangyflawni' yn dechrau adeg geni a bod yn rhaid mynd i'r afael ag ef yn y blynyddoedd cynnar, ac y gall ymyriadau addysgol yn cynnwys yr holl deulu wneud gwahaniaeth enfawr nid yn unig i uchelgais a chyrhaeddiad plant, ond hefyd i sgiliau, hyder ac uchelgais eu rhieni neu ofalwyr. Mae felly'n siom, er gwaethaf consyrn eang am deuluoedd 'problem' a'r bwlch cyrhaeddiad parhaus sy'n effeithio ar lawer yn ein cymdeithas, y rhoddir cyn lleied o bwysau ar effaith posibl ymyriadau cadarnhaol ac wedi'u targedu dysgu fel teulu, wrth godi uchelgais a chyrhaeddiad ac wrth dorri costau ymatebol i'r pwrs cyhoeddus. Mae'n rhaid i hyn newid os ydym o ddifrif am fynd i'r afael â'r problemau hyn. Ni all ysgolion ei wneud ar eu pen eu hunain. Rhaid gosod dysgu fel teulu yng nghanol ymyriadau y bwriedir iddynt gau'r bwlch cyrhaeddiad a gwella sgiliau a galluoedd oedolion a phlant, yn arbennig rai o'r cymunedau lleiaf breintiedig ac 'anoddaf eu cyrraedd'.

Gwelsom fod tystiolaeth feintiol gref o effaith dysgu fel teulu ar gyrhaeddiad plant. Dengys ymchwil y gallai dysgu fel teulu gynyddu lefel gyffredinol datblygiad plant gan gymaint â 15 pwynt canran ar gyfer rhai o grwpiau dan anfantais a rhoi gwelliant cyfartalog mewn darllen yn gyfystyr â chwe mis o oedran darllen. Yn bwysig, mae gan ddysgu fel teulu fanteision hirdymor, gan ei fod yn effeithio ar ymddygiad ac agweddau at ddysgu ar draws y teulu cyfan. Credwn y dylid ei gynnwys yng nghynnig craidd darpariaeth blynyddoedd cynnar ac y byddai'n ddefnydd effeithiol o gyllid ysgol, megis y Premiwm Disgybl yn Lloegr a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru.

Mae dysgu fel teulu yn gwella sgiliau ac uchelgais plant a hefyd yn cael effaith amlwg ar gyrhaeddiad ac uchelgais rhieni a gofalwyr, gyda buddion pwysig o ran hyder, cymhelliant a pharodrwydd i ddysgu, ac ystod o ffactorau eraill sy'n hanfodol i ddilyniant i addysg bellach a chyflogaeth. Mae hyn yn bwysig, gan y dengys adroddiadau diweddar fod lefelau sgiliau'r Deyrnas Unedig yn wael o gymharu gyda chenhedloedd eraill datblygedig. Yn ychwanegol, mae manteision cymdeithasol pwysig, megis gwella integreiddio, cyfalaf cymdeithasol ac ymgyfraniad cymunedol. Mae'r rhain yn neilltuol o rymus mewn cymunedau mwy difreintiedig ac ymysg cymunedau lle mae cyfranogiad mewn addysg fel arfer yn isel.

Ar yr un pryd â gwella sgiliau a gallu oedolion a phlant, dengys ymchwil fod dysgu fel teulu yn cael effaith ar ystod o agendâu polisi, megis iechyd, cyflogadwyedd, ymgyfraniad yn y gymuned, diwylliant a chwaraeon, a gostwng aildroseddu. Yr ehangder effaith hwn sy'n gwneud dysgu fel teulu yn gystal gwerth am arian. Canfu ymchwil hydredol o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig fod dysgu fel teulu yn rhoi adenillion mawr i gymdeithas; erbyn canol eu 20au, roedd plant a gymerodd ran mewn dysgu fel teulu yn ennill mwy o gyflog ac yn fwy tebygol o fod wedi mynd i brifysgol. Mae'r wers i wneuthurwyr polisi yn glir. Dylid ariannu dysgu fel teulu i dorri costau gwariant ymatebol.

Ni allai'r neges fod yn gliriach: mae dysgu fel teulu yn cefnogi twf economaidd ac yn helpu i adeiladu cymdeithas well. Mae'n cael effaith ar gyflogadwyedd ac ymgysylltu mewn cymdeithas. Mae'n datblygu hunan-effeithiolrwydd, yn ysbrydoli plant a'u rhieni i anelu'n uwch, ac yn rhoi'r adnoddau maent eu hangen i newid eu bywydau er gwell. Mae ei ddeilliannau lluosog yn golygu

y medrir ei weithredu mewn gwahanol osodiadau a'i addasu i ateb anghenion unigolion a gwahanol gyd-destunau lleol. Yn ogystal â bod yn elfen effeithlon mewn unrhyw strategaeth ar gyfer addysg oedolion a sgiliau, dylai hefyd gael ei seilio mewn strategaethau i godi cyrhaeddiad plant a'i integreiddio i bolisïau adrannau llywodraeth i sicrhau canlyniadau trawsadrannol. Mae'r argymhellion islaw'n nodi sut y cred y comisiwn y dylid cyflawni hyn.

## **Argymhellion** ar gyfer Lloegr

### 01


**Dylai dysgu fel teulu fod yn ganolog i strategaethau ysgol i godi cyrhaeddiad plant a chau'r bwlch rhwng y rhai gyda'r cyrhaeddiad isaf a'r rhai gyda'r cyrhaeddiad uchaf. Yn neilltuol:**



- Dylai ysgolion ddefnyddio cyllid, megis y Premiwm Disgyblion, i sicrhau y cynigir rhaglenni ansawdd uchel dysgu fel teulu i rieni a gofalwyr plant, yn neilltuol rai o gefndiroedd difreintiedig.
- Dylai cyrff llywodraethu sicrhau fod yr amgylchedd mewn ysgolion yn croesawu rhieni a gofalwyr a bod ysgolion yn hyrwyddo dysgu yn y teulu.
- Dylai'r Adran Addysg ymchwilio effaith ymyriadau Saesneg a mathemateg i'r teulu ar gyflawniad a chyrhaeddiad plant ar y Cam Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 a 2 i ddylanwadu ar ysgolion a darparwyr annibynnol, e.e. ysgolion atodol, am gost-effeithlonrwydd y model.
- Dylai hyfforddiant dechreuol a datblygiad proffesiynol athrawon gynnwys tystiolaeth a hyfforddiant ar arwyddocâd ymgyfraniad rhieni a dysgu fel teulu.
- Dylai Ofsted gynnal arolygiadau arolwg thematig rheolaidd ar gyflenwi dysgu fel teulu ar draws ystod o ddarparwyr, yn cynnwys ysgolion a cholegau.

### 02

**Dylai dysgu fel teulu fod yn elfen allweddol o strategaethau addysg oedolion a sgiliau i gysylltu gyda'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur a gwella cyflogadwyedd, yn arbennig drwy ddarpariaeth Saesneg a mathemateg i'r teulu. Yn neilltuol:**



- Dylai Partneriaethau Menter Lleol fanteisio ar allu rhaglenni dysgu fel teulu, er enghraifft drwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i ymestyn allan i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, a gyda darparwyr oedolion, sicrhau y caiff ei gynnwys mewn cynlluniau partneriaeth.
- Dylai'r Sefydliad Addysg a Hyfforddiant ddatblygu galluedd ac arbenigedd yn y gweithlu dysgu fel teulu.
- Dylai awdurdodau lleol a chomisiynwyr eraill dysgu fel teulu sicrhau fod darparwyr yn gweithio o fewn fframwaith sicrwydd ansawdd addas, sy'n cynnwys athrawon wedi eu hyfforddi, mannau cyfarfod hygyrch a chyfeillgar i deuluoedd, gofal plant ar gael, llwybrau dilyniant clir, cyfleoedd achredu, a defnyddio mentoriaid neu hyrwyddwyr ar gyfer recriwtio a chefnogaeth.

- Dylai darparwyr rhaglenni dysgu fel teulu, yn cynnwys colegau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a chyrff sector gwirfoddol, sicrhau fod gan staff gymwysterau addas i gyflenwi cyfleoedd dysgu ansawdd uchel yn unol gyda'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer dysgu fel teulu.

## 03

**Dylai pob plentyn fod â hawl i fod yn rhan o deulu sy'n dysgu. Mae llawer o blant yn cael eu magu mewn teuluoedd a all gefnogi eu dysgu, ond nid felly eraill. Dylai cyrff cyhoeddus dargedu cymorth i helpu'r teuluoedd hyn. Yn neilltuol:**

- Dylai awdurdodau lleol weithio gyda Byrddau Iechyd a Lles a Phartneriaethau Dysgu yn y Gymuned i ddynodi ffyrdd i dargedu adnoddau ar deuluoedd a fyddai'n manteisio o raglenni dysgu fel teulu. Byddai angen dull gweithredu strategol a chydlynol ar gyfer hyn.
- Dylai awdurdodau lleol a chomisiynwyr gwasanaethau oedolion a phlant sicrhau fod dysgu fel teulu yn rhan ganolog a gaiff ei ariannu o'r cynnig craidd o ganolfannau plant a darpariaeth gymunedol arall.
- Dylai awdurdodau lleol yn Lloegr sicrhau fod eu rhaglenni Teuluoedd Cythryblus yn cynnwys darpariaeth ymyriadau Saesneg a mathemateg i'r teulu, yn neilltuol yng ngoleuni'r £200 miliwn ychwanegol o ymrwymiad adolygiad gwariant i'r rhaglen.

## 04

**Dylai adrannau allweddol y llywodraeth gynnwys dysgu fel teulu yn eu polisïau a'u strategaethau er mwyn sicrhau canlyniadau t raws-adrannol. Yn neilltuol:**

- Dylai'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) hyrwyddo dysgu fel teulu fel elfen allweddol o sgiliau oedolion a chymunedol.
- Dylai'r Adran Addysg (DfE) ddefnyddio ei dylanwad a'i rôl fel arweinydd i hyrwyddo dysgu fel teulu fel dull effeithiol o godi cyflawniad a gostwng y bwlch cyrhaeddiad.
- Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) adeiladu dysgu fel teulu i raglenni perthnasol i fynd i'r afael â bod heb waith a'r posibilrwydd o fod heb waith yng nghenedlaethau'r dyfodol.
- Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r ymchwiliad yma, dylai BIS, y DfE, y DWP, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, yr Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fuddsoddi mewn ymchwil, datblygu a mesurau effaith i ddeall yn well sut y gall cefnogi rhieni a gofalwyr a Saesneg a mathemateg i'r teulu gyfrannu at eu hagendâu.

## 05

### Dylai llywodraethau Lloegr a Chymru adolygu'n rheolaidd y cyllid ar gyfer a'r cyflenwad o ddysgu fel teulu yn erbyn galw posibl. Yn neilltuol:




- Dylid cynnal asesiad llinell sylfaen i fuddsoddiad presennol mewn dysgu fel teulu ar draws holl adrannau'r llywodraeth. Dylai'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau asesu'r cymhellion a'r datgymhellion yn ei systemau cyllid ar gyfer darparwyr mewn cyflenwi dysgu fel teulu.
- Dylai'r Asiantaeth Ariannu Sgiiau gynnal asesiad effaith o'i system cyllido newydd ar gyflenwi dysgu fel teulu, gan sicrhau'n neilltuol y gellir cydnabod allbynnau a deilliannau deuol dysgu fel teulu.
- Dylai'r Asiantaeth Ariannu Sgiiau sicrhau fod y gyllideb dysgu yn y gymuned yn gwrthsefyll chwyddiant a, dros gyfnod, adfer y gyllideb i'w lefel wreiddiol.
- Dylai'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau sicrhau fod pob ardal awdurdod lleol yn buddsoddi arian dysgu yn y gymuned mewn rhaglenni dysgu fel teulu wedi'u targedu i ateb ac ysgogi galw.

## 06

### Dylai fod fforwm cenedlaethol ar y cyd ar gyfer dysgu fel teulu yn Lloegr a Chymru i gefnogi arfer ansawdd uchel ac arloesol, polisi ac eiriolaeth, ymchwil a datblygu priodol. Yn neilltuol:



Dylai'r fforwm cenedlaethol:

- eirioli gyda llywodraeth a chyrff eraill am fwy o ddealltwriaeth a buddsoddiad mewn dysgu fel teulu;
- bod yn ganolbwynt arfer gorau a phwynt 'mynd iddo' ar gyfer adnoddau, hyfforddiant a mynediad i ffyrdd newydd o gyflenwi, yn cynnwys drwy ddefnyddio technolegau newydd;
- dathlu a hyrwyddo gwerth dysgu fel teulu;
- sicrhau bod ffocws ar ganlyniadau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion;
- arwain a lledaenu ymchwil i ddysgu fel teulu;
- bod yn ffocws ar gyfer datblygu safonau ansawdd;
- sicrhau cyswllt rheolaidd gyda gweinidogion allweddol i sicrhau bod cyfraniad dysgu fel teulu at ystod o agendâu polisi yn cael ei ddeall, a
- bod yn bartneriaeth gynhwysol o sefydliadau cymdeithas sifil, adrannau llywodraeth a rhwydweithiau sydd â diddordeb a rhan mewn hyrwyddo dysgu fel teulu.

# **Argymhellion** ar gyfer Cymru

## 01

**Dylai dysgu fel teulu fod yn rhan ganolog o strategaethau ysgolion i godi cyrhaeddiad plant a chau'r bwlch rhwng y cyflawnwyr isaf ac uchaf. Yn neilltuol:**

- Dylai'r Adran Addysg ac Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ymchwilio effaith ymyriadau iaith a mathemateg teulu ar gyflawniad a chyrhaeddiad plant ar y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 a 2 i ddangos i ysgolion a darparwyr annibynnol fod y model yn gost-effeithlon.
- Dylai hyfforddiant dechreuol a datblygiad proffesiynol athrawon gynnwys tystiolaeth a hyfforddiant ar arwyddocâd ymgyfraniad rhieni a dysgu fel teulu.
- Dylai ysgolion gynnwys dysgu fel teulu fel ymyriad effeithlon i gefnogi plant difreintiedig a dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cyfeiriadau amlwg at ddysgu fel teulu o fewn cyfarwyddyd ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r gronfa arian cyfatebol gysylltiedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Dylai Estyn barhau ei waith presennol ar ddysgu fel teulu a llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion a chynnwys adroddiadau eglur ar ddysgu fel teulu o fewn arolygiadau perthnasol.

## 02

**Dylai dysgu fel teulu fod yn elfen allweddol o strategaethau addysg oedolion a sgiliau i gysylltu gyda'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur a gwella cyflogadwyedd, yn arbennig drwy ddarpariaeth iaith a mathemateg i'r teulu. Yn neilltuol:**

- Dylai Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned, y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol sy'n datblygu ac eraill sy'n dymuno cyrraedd y rhai pellaf o'r farchnad lafur fanteisio ar ddysgu fel teulu fel strategaeth ymgysylltu effeithlon anogol.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phob darparydd rhaglenni dysgu fel teulu yn cynnwys awdurdodau lleol, colegau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a chyrff y sector gwirfoddol i ddatblygu gallu ac arbenigedd y gweithlu dysgu fel teulu. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd datblygu fydd yn sicrhau fod gan staff gymwysterau addas i gyflenwi cyfleoedd dysgu ansawdd uchel yn unol gyda'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer dysgu fel teulu.

## 03

**Dylai pob plentyn fod â hawl i fod yn rhan o deulu sy'n dysgu. Mae llawer o blant yn cael eu magu mewn teuluoedd a all gefnogi eu dysgu, ond nid felly eraill. Dylai cymorth wedi'i dargedu fod ar gael i'r teuluoedd hyn. Yn neilltuol:**

- Dylai awdurdodau lleol gynnwys rhaglenni dysgu fel teulu mewn cynlluniau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.
- Dylai cynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf gynnwys dysgu fel teulu fel rhan o'r tîm o amgylch cyflenwi gwasanaethau i deuluoedd a dylai cydlynwyr dysgu fel teulu gymryd rhan yn y broses gynllunio.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod a dathlu a cheisio cefnogi gwerth dysgu fel teulu yn ehangach a chydnabod y ddarpariaeth a gynigir gan ystod o gyrff, yn neilltuol yn y sectorau cymunedol, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru.

## 04

**Dylai adrannau allweddol y llywodraethau yn Lloegr a Chymru gynnwys dysgu fel teulu yn eu polisïau a'u strategaethau er mwyn sicrhau canlyniadau trawsadrannol. Yn neilltuol:**

- Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau fynd ati i gynnwys dysgu fel teulu mewn rhaglenni perthnasol i fynd i'r afael â diweithdra.
- Dylai Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei rôl fel arweinydd i hyrwyddo dysgu fel teulu fel dull effeithlon o godi cyrhaeddiad ysgol a gostwng y bwlch cyrhaeddiad rhwng y tlotaf a'r cyfoethocaf ac fel elfen allweddol o gael oedolion anos eu cyrraedd i gymryd rhan mewn dysgu.
- Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn ymchwil, datblygu a mesurau effaith trawsadrannol i ddeall yn well sut y gall cefnogi rhieni a gofalwyr, ac iaith a mathemateg i'r teulu gyfrannu at eu hagenda.
- Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi casglu gwybodaeth ar draws lled y cwricwlwm dysgu fel teulu a dynodi cyfrifoldeb cydlynol sengl ar gyfer hwyluso cyflawni deiliannau a rennir a thraws adrannol.

## 05

**Dylai llywodraethau Lloegr a Chymru adolygu'r cyllid yn rheolaidd ar gyfer a chyflenwi dysgu teulu yn erbyn y galw posibl. Yn neilltuol:**

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau a cheisio ymestyn ei rhaglenni dysgu fel teulu cyfredol sydd wedi'u targedu.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff dysgu fel teulu ei ystyried fel dull effeithlon wrth gyflenwi ystod eang o'i agendâu polisi ac annog y rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau i gomisiynu dysgu fel teulu fel rhan o'u gwaith.

# 06

**Dylai fod fforwm cenedlaethol ar y cyd ar gyfer dysgu fel teulu yn Lloegr a Chymru i gefnogi arfer arloesol, ansawdd uchel, polisi ac eiriolaeth addas, ymchwil a datblygu. Yn neilltuol:**



Dylai'r fforwm cenedlaethol:

- eirioli gyda llywodraeth a chyrff eraill am fwy o ddealltwriaeth a buddsoddiad mewn dysgu fel teulu;
- bod yn ganolbwynt ar gyfer arfer gorau a phwynt 'mynd iddo' ar gyfer adnoddau, hyfforddiant a mynediad i ffyrdd newydd o gyflenwi, yn cynnwys drwy ddefnyddio technolegau newydd;
- dathlu a hyrwyddo gwerth dysgu fel teulu;
- sicrhau bod ffocws ar ddeilliannau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion;
- arwain a lledaenu ymchwil i ddysgu fel teulu;
- bod yn ffocws ar gyfer datblygu safonau ansawdd;
- sicrhau cysylltiad rheolaidd gyda gweinidogion allweddol i sicrhau y caiff cyfraniad dysgu fel teulu i ystod o agendâu polisi ei ddeall; a
- bod yn bartneriaeth gynhwysol o sefydliadau cymdeithas sifil, adrannau llywodraeth a rhwydweithiau sydd â diddordeb a rhan mewn hybu dysgu fel teulu.

# Atodiad 1

## Rhaglenni dysgu fel teulu



Gogoniant dysgu fel teulu yw y gellir ei gyflwyno'n hyblyg, i weddu i sefyllfaoedd ac anghenion lleol.

| Maes dysgu fel teulu | Enghreifftiau cyrsiau/gweithgareddau |
|---|---|
| **Celf, hanes a diwylliant** | Arddangosfeydd amgueddfa a gweithgareddau teulu cysylltiedig. Ffrangeg i'r Teulu. Adeiladu eich coeden deulu. Dysgu drwy Lundain. |
| **Cyflogaeth a menter** | Darllen ac odli. Cerdd a stori, Camu lan gyda mathemateg, Llythyrau a synau gyda'i gilydd, Sgwrsio, Cyfrif 1,2,3, Lindys llwglyd, Hwyl cegin (mathemateg), Sachau straeon, Rhifau i'r plantos, Saesneg i'r Teulu ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, Saesneg a mathemateg i'r teulu, Hwyl gyda ffoneg. |
| **Datblygiad plant** | Dechrau a chwarae. Parodrwydd i'r ysgol. Grym tadau. Materion sgwrsio plant. SEAL (Effeithiau Cymdeithasol ac Emosiynol Dysgu) Teulu. Cyflwyniad i ddatblygiad plant. |
| **Dinasyddiaeth** | Cyfraith a threfn - Cyflwyniad i deuluoedd. Gwneud eich cymuned yn lle mwy diogel. ESOL Teulu - sut i gael mynediad i wasanaethau. |
| **Dysgu ar gyfer bod yn gadarn** | Gwneud gemwaith, Gweithdy gwnïo a chrefft i'r teulu, DIY, Adeiladu, Tyfu Coginio Bwyta, Gwneud cardiau |
| **Gallu ariannol** | Aur coeth, Trin eich arian, Bargen o haf, Gwneud y gorau o'ch arian, Gwneud synnwyr o arian |
| **Gwyddoniaeth ac amgylchedd** | Gwyddoniaeth syml, Adeiladu robot, O ble daw mellt?, Gadewch i ni ymchwilio, K'nex teulu |
| **Iechyd a lles** | Cerdd a symud, Pêl-droed tadau a hogiau, dosbarthiadau bygi FITT, Iechyd teulu, Fy nheulu a fi, Byw'n ddiogel - byw'n dda, Bwyta'n iach, Tylino baban, Mr Bump - cymorth cyntaf. |
| **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Cyfrifiaduron creadigol, Diogelwch rhyngrwyd, Defnyddio iPad, Hwyl Rhif TGCh, Caneuon a rhigymau ICT |
| **Rhianta** | Aros a chwarae, Rhianta, Rhieni gyda rhagolygon, Sgwrs teulu |

# Atodiad 2

## Ffrydiau cyllid allweddol

Yn Lloegr, y brif ffynhonnell o gyllid llywodraeth ar gyfer dysgu fel teulu yw Cyllideb Dysgu yn y Gymuned yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau (SFA) sy'n cefnogi Saesneg a mathemateg i'r teulu a rhaglenni ehangach dysgu i'r teulu.

Mae ffynonellau eraill o gyllid yn cynnwys:

- Premiwm Disgyblion
- Rhaglenni teuluoedd cythryblus DWP/ DCLG
- Prosiect Ymyriad Teulu
- Y Loteri Fawr
- Ymddiriedolaethau elusennol
- Cronfeydd cymunedol lleol bach
- Cefnogaeth mewn da i ystafelloedd dosbarth ysgolion
- Cyllid ysgol i ryddhau staff i gyd-diwtora gweithgareddau
- Cefnogaeth meithrinfa blynyddoedd cynnar ychwanegol lle bo angen
- Cynlluniau Hyrwyddwyr Dysgu
- Gwirfoddoli

Nid yw'r lefelau cyllid ar gyfer dysgu fel teulu a ffigurau cyfranogiad o'r gwahanol ffynonellau hyn ar gael nac wedi'u crynhoi ar y lefel genedlaethol.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglenni llythrennedd a rhifedd teulu ym mhob awdurdod lleol drwy gynllun grantiau. Mae pob ardal awdurdod lleol yn datblygu ei gynllun cyflenwi lleol ei hun. Mewn llawer o ardaloedd, mae rhaglen Llywodraeth Cymru'n rhoi'r craidd canolog a gaiff ei hybu gan gyllid o ffynonellau eraill i ehangu ac ymestyn darpariaeth.

Mae hyn wedi cynnwys:

- Cyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Allgymorth colegau Addysg Bellach
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop
- Y Loteri Fawr
- Ymddiriedolaethau a chronfeydd elusennol
- Grant Amddifadedd Disgyblion
- Cyllid Cymunedau yn Gyntaf
- Cymunedau 2.0 (ar gyfer prosiectau cynhwysiant digidol)
- Gweithgareddau partneriaeth
- Ysgolion bro (er nad yw'r gronfa hon ar gael mwyach)

Mae ffynonellau eraill yn darparu cyllid ar gyfer cyrsiau rhianta a chymorth teulu a all hefyd ddod o fewn diffiniad dysgu fel teulu.

# Atodiad 3

## Lleoliadau ar gyfer dysgu fel teulu

Gall dysgu fel teulu ddigwydd ble bynnag y daw rhieni a gofalwyr ynghyd, yn cynnwys:

- Cartref
- Ysgolion
- Canolfannau plant Dechrau'n Deg
- Canolfannau addysg oedolion
- Canolfannau cymunedol
- Ysgolion atodol
- Teledu
- Rhyngrwyd
- Amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau
- Canolfannau awyr agored
- Canolfannau hamdden a chwaraeon
- Canolfannau iechyd a lles
- Carchardai
- Grwpiau chwarae
- Gofalwyr maeth
- Cartrefi gofal

# Atodiad 4

## Beth yw nodweddion y rhaglenni dysgu fel teulu mwyaf effeithlon?



Yn 2009, cynhaliodd Ofsted arolwg graddfa-fach o 23 o wasanaethau awdurdodau lleol ar ddysgu oedolion yn y gymuned oedd yn cynnig darpariaeth dysgu fel teulu.[47] Yn ogystal ag ymchwilio modelau cyflenwi, rhoddodd yr adroddiad enghreifftiau o nodweddion rhaglenni effeithiol dysgu fel teulu. Lle'r oedd rhaglenni dysgu fel teulu yn effeithlon, dynododd Ofsted y nodweddion dilynol:

- Roedd addysgu a dysgu yn dda neu'n rhagorol gyda'r rhan fwyaf o ddarpariaeth yn cael ei chyfoethogi gan ymweliadau allanol i ymestyn dysgu, hyrwyddo hunaniaeth grŵp a rhoi cymhelliant am bresenoldeb rheolaidd.
- Roedd dull wedi'i gynllunio at ddatblygu dysgwyr, gan ddechrau gyda chyrsiau a gweithdai blasu byr, gan symud ymlaen i gyrsiau byrrach ac ehangach ar gyfer dysgu fel teulu ac ymlaen i ddarpariaeth teulu, llythrennedd, iaith a rhifedd.
- Cynlluniwyd darpariaeth drwy gydol y flwyddyn, gyda rhai rhaglenni'n cynnig cyrsiau hirach yn nhymor yr haf.
- Cynigiwyd rhaglenni mewn ystod o leoliadau, yn cynnwys ysgolion, canolfannau plant Dechrau Deg, llyfrgelloedd, canolfannau teulu, unedau atgyfeirio disgyblion, prosiectau rhieni yn yr arddegau a chanolfannau ieuenctid.
- Roedd cyfleoedd ar gael ar gyfer dysgu teulu rhyng-genhedlaeth, ynghyd â chyfran glir ac wedi'i diffinio'n briodol gyda ffocws ar oedolion, yn arbennig mewn cyrsiau llythrennedd, iaith a rhifedd teulu.
- Gweithredwyd strategaethau i sicrhau fod anghenion dysgu oedolion a phlant yn cael eu cyflawni, gan adeiladu ar anghenion cyfranogwyr.
- Dangosodd cynllunio ddeilliannau a ddynodwyd yn glir ar gyfer rhieni a phlant yn gysylltiedig gyda chwricwlwm craidd Sgiliau Bywyd oedolion, targedau personol neu'r cwricwlwm cenedlaethol ac roedd cyfleoedd rheolaidd ar gyfer asesiad ffurfiannol yn ogystal â chrynodol.
- Cafodd cyrsiau dysgu fel teulu eu cynllunio ar y cyd gan athro'r plant a thiwtor addysg oedolion, i sicrhau fod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.
- Cafodd staff eu dethol, recriwtio a'u datblygu drwy'r awdurdod lleol er mwyn ateb blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.
- Addysgu tîm gan staff dysgu teulu ac athrawon dosbarth neu gymhorthwyr dysgu yn galluogi addysgu hyblyg ac ymatebol.
- Ysgolion yn cefnogi cyflenwi dysgu fel teulu gyda chymhorthwyr cymorth dysgu, gweithwyr teulu neu fentoriaid, gyda llawer o oedolion a fynychodd ddysgu fel teulu eu hunain yn symud ymlaen i'r rolau hyn, gan felly ddefnyddio eu profiad eu hunain i roi cefnogaeth effeithlon.
- Ymgynghorodd darparwyr yn eang gyda rhieni a gofalwyr, ysgolion a phartneriaid drwy sgyrsiau wyneb-i-wyneb, gwerthusiadau o sesiynau dysgu, sesiynau cyfarwyddo a digwyddiadau dathlu, i benderfynu ar anghenion lleol.
- Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r ystod heriau oedd yn wynebu dysgwyr a defnyddiodd darparwyr ystod o strategaethau i wneud darpariaeth yn hygyrch i grwpiau wedi eu targedu, er enghraifft drwy gynnig cyfleusterau meithrinfa am ddim i ddysgwyr a chynnig cyrsiau mewn lleoliadau ac amserau i weddu i ddysgwyr.

Fel rhan o astudiaeth ymchwil dwy-flynedd a gynhaliwyd gan NRDC ar ran LSIS rhwng 2007 a 2007, amlinellwyd nifer o ffactorau

47 Ofsted (2009) An evaluation of the benefits of family learning for participants, their families and the wider community, www.ofsted.gov.uk/resources/family-learning.

llwyddiant ychwanegol yn yr adroddiad i helpu awdurdodau lleol, ysgolion ac athrawon i gynllunio darpariaeth effeithlon ar gyfer llythrennedd teulu.[48]

Y ffactorau ychwanegol hyn oedd:

- arweinyddiaeth gref, gyda rheolwyr gyda chefndir addysgol cryf yn deall strwythurau ysgol, yn ogystal â phenaethiaid ysgolion oedd yn cydnabod manteision llythrennedd teulu a rôl rhieni yn nysgu eu plant;
- ymagwedd hyblyg gan awdurdodau lleol at ddysgu fel teulu, yn cynnwys parodrwydd i gynnal rhaglenni pan oedd nifer isel o oedolion yn ymrestru i gadw ysgolion wedi ymgysylltu ac yn caniatáu diddordeb mewn darpariaeth i dyfu;
- awdurdodau lleol yn datblygu perthynas gref gydag ysgolion a datblygu partneriaethau gyda cholegau, yn galluogi mynediad i diwtoriaid llythrennedd oedolion gyda chymwysterau;
- ysgolion yn cynnal digwyddiadau dathlu lle gallai rhieni weld eu rhieni'n ennill cymwysterau;
- defnyddio swyddogion cymorth neu gydlynu rhieni a hyrwyddwyr dysgu i recriwtio rhieni;
- ymarferwyr yn dechrau o ble'r oedd rhieni a phlant yn nhermau eu dealltwriaeth o lythrennedd a'u sgiliau llythrennedd; a sesiynau ar gyfer rhieni'n unig wedi cysylltu'n uniongyrchol gyda chwricwlwm yr ysgol ac yn cynnwys gwybodaeth i rieni ar sut, yn ogystal â beth, a addysgir i blant yn yr ysgol;
- ymrwymiad a phresenoldeb rheolaidd gan rieni a ffurfiodd berthynas dda ac a gefnogodd ei gilydd;
- gosod gweithgareddau amser cartref fel y gallai rhieni gefnogi eu plant adref rhwng sesiynau.



48 LSIS (2009) *Learning literacy together: the impact and effectiveness of family literacy on parents, children, families and schools..*

# Atodiad 5

## Adnoddau i gefnogi ansawdd

Datblygwyd ystod o adnoddau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i helpu darparwyr dysgu fel teulu i gynnig y rhaglenni ansawdd gorau ar gyfer dysgu fel teulu.

Yn 2008 cynhyrchwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r 'Raising Standards Guide' a osodwyd mewn cyd-destun ar gyfer dysgu fel teulu, yn seiliedig ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Wedi'i gyhoeddi'n flaenorol gan Uned Strategaeth Sgiliau Bywyd y DfES, roedd y canllaw yn un o gyfres o lyfrynnau oedd yn anelu i helpu athrawon a rheolwyr dysgu fel teulu i wella ansawdd eu rhaglenni ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Cafodd adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi ansawdd gwella mewn teulu a dysgu eu datblygu gan LSIS drwy'r rhaglenni cenedlaethol dysgu fel teulu, sydd yn awr mewn archif ar wefan Skills for Families. Cynigiwyd cefnogaeth ychwanegol drwy gynghorwyr Skills for Families i roi help strategol i awdurdodau a'u darparwyr llythrennedd teulu, iaith a rhifedd i wella ansawdd eu darpariaeth dysgu fel teulu.

Datblygwyd cwricwlwm craidd ar gyfer dysgu fel teulu i ddangos i ymarferwyr a rheolwyr dysgu fel teulu sut mae sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd yn sail i gyd-destunau, tasgau gweithgareddau cyfarwydd dysgu fel teulu. Gweler www.excellencegateway.org.uk/node/17599.

Cafodd safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer dysgu fel teulu eu datblygu a'u cytuno gyntaf wrth ochr y safonau ar gyfer rhieni sy'n gweithio yn 2005. Mae'r safonau hyn yn rhoi datganiadau o'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen gan y gweithlu dysgu fel teulu a chawsant eu diweddaru ym Mai 2013.

Yn dilyn adroddiad arolwg dysgu fel teulu 2009, cyhoeddodd Ofsted adnodd arfer da gan Gwasanaethau Dysgu Oedolion a Theulu Swydd Hertford ym Mai 2013. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut y gall gwaith partneriaeth effeithlon gyda chanolfannau plant gynyddu darpariaeth a llwyddo i ddenu dysgwyr anodd-eu-cyrraedd yn ôl i ddysgu a chyflogaeth. Gweler www.ofsted.gov.uk/resources/good-practice-resource-family-learning-childrens-centre-hertfordshire-adult-and-family-learning-ser

Mae Estyn wedi dynodi arfer da yn Ysgol Gynradd Capcoch, Abercwmboi, Cwm Cynon. Datblygodd yr ysgol strategaeth ar gyfer gwella canfyddiadau rhieni o fywyd ysgol a chynyddu disgwyliadau addysgol. Ymysg gweithgareddau eraill, maent yn cynnig ystod o gyrsiau addysg oedolion, e.e. llythrennedd, rhifedd, rhianta, technoleg gwybodaeth, coginio a maeth. Mae'r ysgol wedi adrodd gwelliant mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth teulu ynghyd â gwelliannau mewn presenoldeb o 88 y cant i 92.5 y cant a mwy o ymgyfraniad mewn nosweithiau rhieni, cyngherddau a dyddiau agored.

Nod y cynllun Blociau Adeiladu Ansawdd yw ysgogi trafodaeth a chreu consensws am yr hyn sy'n ansawdd da mewn dysgu fel teulu.

# Appendix 6

## Ymarfer creadigol

Mae tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad yn dangos ystod o arferion creadigol a blaengar ar draws Lloegr a Chymru. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o fformatau cyflenwi i weddu i anghenion lleol ac amrywiaeth o leoliadau i greu cyfleoedd cadarnhaol a goresgyn rhwystrau i fynediad. Maent yn cynnal dysgu mewn amgylcheddau anfygythiol, cysylltu gyda diddordebau pobl ac yn dewis lleoliadau sy'n gwella'r profiad dysgu. Maent yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, sefydliadau cymunedol, canolfannau plant, hyrwyddwyr dysgu, amgueddfeydd a chyflogwyr i ennyn diddordeb pobl mewn dysgu a chefnogi eu dilyniant.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

**Dysgu mewn gosodiadau heb fod yn draddodiadol**

- Clybiau pêl-droed (gweler er enghraifft www.safc.com/foundation-of-light)
- Ysgolion coedwig (www.forestschools.com)
- Pysgota (www.fishwish.co.uk)

**Dysgu i ymgysylltu a chefnogi teuluoedd mewn pynciau ysgol**

- Festival of Triangles (www.mathsontoast.org.uk)
- Rowdy Robots (http://cms.nottinghamshire.gov.uk/practicle 6511.htm?id=147068)
- Defnyddio i-Pad (www.niace.org.uk/sites/default/files/documents/project/family/NIACE-research/neath_port_talbot_case_study_final.doc)

**Dysgu i ymgysylltu grwpiau targed**

- Tadau Llyfr Stori (tadau yn y carchar) (www.storybookdads.org.uk)
- Ysgolion atodol (BME a siaradwyr ail iaith) (www.youtube.com/watch?v+GuDJB2NaWo8&feature=plcp)

**Addysgu a dysgu**

- Bagiau offer cyfathrebu gofodau cyfeillgar (www.elizabethjarmantraining.co.uk)
- Siop stori godi (www.inspireotherham.org)

# Atodiad 7

## Cyfranogiad mewn dysgu fel teulu yn Lloegr

**Tabl A: Cyfranogiad dysgu yn y gymuned yn ôl rhyw, oedran, anabledd a phwnc sector, Lloegr 2010/11[49]**

| | Llythrennedd, Iaith a Rhifedd Teulu (FLLN) | Dysgu ehangach fel teulu (WFL) | FLLN/WFL gyda'i gilydd |
|---|---|---|---|
| Rhyw | 90.2% benyw | 85.2% benyw | 87.7% benyw |
| Age | 78% 25-44 oed<br>2.6% 60+ oed<br>9% 19-24 oed<br>8.6% 45-59 oed | 73% 25-44 oed<br>4.5% 60+ oed<br>8.7% 19-24 oed<br>11% 45-59 oed | 75.5% 25-44 oed<br>3.5% 60+ oed<br>8.8% 19-24 oed<br>9.8% 45-59 oed |
| Rhanbarthau gyda'r nifer uchaf o ddysgwyr (nifer uchaf o ddysgwyr yn gyntaf) | Llundain, Gogledd Orllewin a De Ddwyrain | De Ddwyrain, Llundain a Gorllewin Canolbarth | Llundain, De Ddwyrain, Gogledd Orllewin |
| Rhanbarthau gyda'r nifer isaf o ddysgwyr (nifer isaf o ddysgwyr yn gyntaf) | De Orllewin, Dwyrain Canolbarth a Gogledd Ddwyrain | De Orllewin, Dwyrain Canolbarth a Gogledd Ddwyrain | De Orllewin, Dwyrain Canolbarth a Gogledd Ddwyrain |
| Anabledd | 7.1% | 7.2% | 7.15% |
| Ethnigrwydd | 66.2% Prydeinig Gwyn<br>6.5% Du<br>17.7% Asiaidd | 76.6% Prydeinig Gwyn<br>4.3% Du<br>10.1% Asiaidd | 71.4% Prydeinig Gwyn<br>5.4% Du<br>13.9% Asiaidd |

49 *Community Learning by type, by region, equality and diversity: participation and achievement (2005/6 – 2010/11),* Gwasanaeth Data BIS/SFA: Gorffennaf 2012

**Tabl B: Cyfranogiad dysgu yn y gymuned yn ôl statws a math difreintiedig, Lloegr 2011/12[50]**

| | Dygwyr dan anfantais | | Dysgwyr heb fod dan anfantais | | Cyfanswm dysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm dysgwyr** | **206,600** | **30.2%** | **476,700** | **69.8%** | **683,300** |
| Dysgu personol a datblygu yn y gymuned | 137,200 | 26.5% | 381,400 | 73.5% | 518,600 |
| Dysgu cymdogaeth mewn cymunedau amddifadus | 25,800 | 46.4% | 29,900 | 53.6% | 55,700 |
| Saesneg, mathemateg ac iaith teulu | 27,700 | 47.1% | 31,000 | 52.9% | 58,700 |

50 *Cofnodion Dysgu Unigol a chynnydd LDC a gafwyd gan Wasanaeth Data BIS/SFA Mehefin 2013*

niace
promoting adult learning

© 2013 NIACE (Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus Oedolion)
(Lloegr a Chymru)

21 De Montfort Street
Caerlŷr/Leicester LE1 7GE

Rhif cofrestru cwmni 2603322
Rhif cofrestru elusen 1002775

Mae NIACE yn elusen annibynnol sy'n hyrwyddo addysg oedolion ar draws Lloegr a Chymru. Drwy ei ymchwil, datblygiad, cyhoeddiadau, digwyddiadau, gwaith allgymorth ac eiriolaeth, mae NIACE yn gweithio i wella ansawdd a lled y cyfleoedd sydd ar gael i bob oedolyn fel y gallant fanteisio o ddysgu ar hyd eu bywyd.

www.niace.org.uk

Dilynwch ni ar @NIACEhq
Cyhoeddiadau: @NIACEbooks

I lawrlwytho PDF o'r cyhoeddiad hwn ac i gael catalog llawn o holl gyhoeddiadau NIACE ewch i http://shop.niace.org.uk

Mae crynodeb o'r adroddiad hwn ar gael yn http://bit.ly/17hqBcY

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, copïo neu drosglwyddo'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddfau Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded yn caniatáu copïo a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.

Lluniau: Tudalen 5 © Caters Photographic, Tudalennau 7, 12, 17, 20, 25 © Paul Hickinbotham